sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

# Diwygiedig 2018-2033
## Cynllun Datblygu Lleol

# Papur Pwnc
## Gwastraff



Chwefror 2023

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

# Cynnwys


1.0 Cefndir ..... 2

2.0 Rheoli Gwastraff yn Sir Gaerfyrddin – y sefyllfa leol ..... 9

3.0 Swyddogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin fel Awdurdod Cynllunio Gwastraff ..... 20

4.0 Materion allweddol sy'n cael sylw yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru ..... 24

5.0 Casgliadau ..... 28

ATODIAD 1 ..... 30

Cyfleusterau Gwastraff a Ganiateir yn Sir Gaerfyrddin ..... 30

ATODIAD 2: ..... 32

Ceisiadau a Chaniatâd Gwastraff ers mabwysiadu’r CDLl ..... 32

## 1.0 Cefndir

1.1 Mae’r Papur Pwnc hwn yn nodi deddfwriaeth/canllawiau (Ewropeaidd, cenedlaethol, a rhanbarthol) mewn cysylltiad â rheoli gwastraff ac mae’n archwilio sut y mae hyn yn dylanwadu ar Sir Gaerfyrddin ar lefel leol o ran paratoi’r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) Diwygiedig.

1.2 Mae'r system ar gyfer rheoli gwastraff a chynllunio gwastraff yn mynd trwy drawsnewidiad cyflym. Bellach ystyrir bod gorddibynnu ar dirlenwi fel y dull o drin gwastraff a ffefrir yn anaddas. Mae deddfwriaeth a gyflwynwyd gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn pennu targedau ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff a bydd yn galw am ddulliau newydd o reoli gwastraff, ynghyd â chynnydd sylweddol yn nifer y cyfleusterau fel bod modd rhoi’r dulliau hyn ar waith a chyflawni’r targedau. Mae deddfwriaeth yr UE eisoes wedi'i throi'n ddeddfwriaeth genedlaethol yn y DU, ac felly er bod y DU bellach wedi gadael yr UE, mae gofynion yr UE wedi'u hymgorffori serch hynny mewn deddfwriaeth yn y DU ac yng Nghymru.

1.3 Diben y Papur Pwnc yw darparu tystiolaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo, ac wrth wneud hynny bydd yn parhau i fod yn ddogfen sy’n esblygu, yn agored i gael ei diweddaru a’i hadolygu pan fydd data newydd ar gael.

## Y Sefyllfa Ddeddfwriaethol Bresennol

### Cyfarwyddebau Ewropeaidd

1.4 Fel cyn-Aelod o’r Undeb Ewropeaidd (UE), roedd y DU wedi ymrwymo i weithredu darpariaethau Cyfarwyddebau Ewropeaidd o fewn ei fframwaith deddfwriaethol ei hun. Ceir nifer o gyfarwyddebau sy’n berthnasol i gynllunio gwastraff, a’r pwysicaf o’r rhain yw’r *Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff* a’r *Gyfarwyddeb Tirlenwi*.

### Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff

1.5 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yw’r prif ddarn o ddeddfwriaeth sy’n cadw rheolaeth ar reoli gwastraff ledled yr UE. Mae’n ceisio dileu’r orddibyniaeth ar dirlenwi drwy gyflwyno’r egwyddor o hierarchaeth gwastraff cynaliadwy sy’n mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn gweithredu mesurau priodol i annog: yn gyntaf, atal neu gyfyngu ar gynhyrchu gwastraff; yn ail, adfer gwastraff drwy ailgylchu neu ailddefnyddio; yn drydydd, defnyddio gwastraff fel ffynhonnell ynni. Mae’r egwyddor hierarchaeth gwastraff yn ystyried tirlenwi fel y cam i’w gymryd yn niffyg dim arall. Mae’r Gyfarwyddeb hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau greu cynlluniau rheoli gwastraff, gan nodi eu capasiti i reoli eu gwastraff eu hunain drwy ddefnyddio rhwydwaith digonol o gyfleusterau gwastraff.

1.6 Mabwysiadwyd Cyfarwyddeb Fframwaith newydd ar gyfer Rheoli Gwastraff yn yr UE yn 2008. Roedd hon yn diwygio deddfwriaeth yr UE ar wastraff ac yn disodli’r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff, y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus a'r Gyfarwyddeb Olew Gwastraff oedd yn bodoli ar y pryd. Mae’n gosod hierarchaeth gwastraff newydd, yn ehangu egwyddor ‘y llygrwr sy’n talu’ drwy bwysleisio cyfrifoldeb y cynhyrchydd ac yn pennu targedau rheoli gwastraff a lleihau gwastraff llymach ar gyfer Aelod-wladwriaethau.

**Y Gyfarwyddeb Tirlenwi**

1.7 Cyflwynodd y Gyfarwyddeb Tirlenwi geisiadau am drwydded a gofynion technegol ar gyfer cynllunio a gweithredu safleoedd tirlenwi. Hefyd cafodd mathau penodol o wastraff o safleoedd tirlenwi eu gwahardd a chyflwynwyd proses o leihau fesul cam y maint o wastraff trefol pydradwy a anfonir i safleoedd tirlenwi, gan osod cosbau os na chyflawnir y targedau. Mae'r newidiadau a gyflwynwyd gan y Gyfarwyddeb hon yn uniongyrchol berthnasol i awdurdodau cynllunio lleol pan fyddant yn paratoi eu cynlluniau datblygu lleol. Yn benodol, dylid darparu digon o gyfleusterau i gymryd gwastraff a waherddir o safleoedd tirlenwi a chyfleusterau trin o flaen llaw.

1.8 Mae epil Gyfarwyddebau eraill y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn cynnwys:

- **Y Gyfarwyddeb Gwastraff Peryglus:** sy'n ceisio diffinio gwastraff peryglus a darparu mesurau rheoli ychwanegol ynghylch tracio, symud a rheoli;
- **Y Gyfarwyddeb Llosgi Gwastraff:** sy'n ceisio lleihau effaith effeithiau amgylcheddol negyddol ar yr amgylchedd ac iechyd pobl yn sgil allyriadau i'r awyr, pridd, dŵr wyneb a dŵr daear o ganlyniad i losgi a chyd-losgi gwastraff.
- **Y Gyfarwyddeb Gwastraff Deunydd Pacio:** sy'n bwriadu darparu lefel uchel o ddiogelwch amgylcheddol o ran rheoli'r ffrwd wastraff hon a hefyd sefydlu mesurau i leihau ac ailddefnyddio deunydd pacio;
- **Y Gyfarwyddeb Diwedd Bywyd Cerbyd (ELV):** sy'n bwriadu atal gwastraff cerbydau ar ddiwedd eu hoes a hybu'r arfer o gasglu, ailddefnyddio ac ailgylchu eu cydrannau i ddiogelu'r amgylchedd;
- **Y Gyfarwyddeb Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE):** sy'n ceisio atal gwastraff o'r ffrwd wastraff hon a hybu'r arfer o gasglu, ailddefnyddio ac ailgylchu. Mae hefyd yn bwriadu gwella perfformiad amgylcheddol pob gweithredwr sy'n rhan o gylch bywyd WEEE.
- **Y Gyfarwyddeb Atal a Rheoli Llygredd mewn ffordd Integredig:** sy'n ceisio atal, lleihau a diddymu llygredd drwy sicrhau bod ymdrechion yn canolbwyntio ar y gweithgareddau diwydiannol ac amaethyddol mwyaf arwyddocaol. Mae hefyd yn canolbwyntio ar ddefnyddio adnoddau naturiol yn ochelgar.
- **Y Gyfarwyddeb Ewropeaidd [2006/21/EC] ar reoli gwastraff o'r Diwydiannau Echdynnol (Y Gyfarwyddeb Gwastraff Mwyngloddio):** sy'n darparu ar gyfer mesurau, gweithdrefnau a chyfarwyddyd i atal neu leihau cymaint â phosibl unrhyw effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, ac unrhyw risgiau canlyniadol i iechyd pobl a ddaw o ganlyniad i reoli gwastraff o'r diwydiannau echdynnol.

**Y Cyd-destun Cenedlaethol (DU)**

1.9 Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau'r UE drosi'r Cyfarwyddebau Ewropeaidd i mewn i'w fframweithiau deddfwriaethol. Fel y nodwyd uchod, roedd y DU eisoes wedi gwneud hyn cyn gadael yr UE. O'r rhain y rhai mwyaf perthnasol i Gymru yw:

- **Rheoliadau Tirlenwi (Cymru a Lloegr) 2002** – sy'n gwahardd yr arfer o gydwaredu gwastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn yr un safle tirlenwi;
- **Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005** a **Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005** – cododd y rhain nifer y gwastraffoedd a ystyrir yn

‘beryglus’ i gynnwys eitemau megis setiau teledu gwastraff, monitorau cyfrifiaduron, tiwbiau fflworoleuol a phlaladdwyr;

- **Rheoliadau Rheoli Gwastraff (Cymru a Lloegr) 2006** – ‘**Rheoliadau Gwastraff Amaethyddol’** – mae’r rhain yn gwahardd claddu a llosgi gwastraff amaethyddol yn anrheoleiddiedig ar ffermydd. Mae’n rhaid i ffermwyr nawr gael gwared ar wastraff o’r fath mewn safleoedd trwyddedig neu wneud cais am drwydded gan Asiantaeth yr Amgylchedd (EA) (neu gofrestru esemptiad trwydded) er mwyn parhau i waredu ar y fferm;
- **Rheoliadau Atal a Rheoli Llygredd (Cymru a Lloegr) 2000** – mae’r rhain yn cwmpasu cael gwared ar wastraff drwy safleoedd tirlenwi a chyfleusterau trin a storio gwastraff.

### Y Cyd-destun Cenedlaethol (Cymru)

1.10 Cynhwysir Canllawiau Cynllunio Cenedlaethol o ran Rheoli Gwastraff ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021) gyda’r atodiad Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 2021: Gwastraff (Chwefror 2014) a Chylchlythyrau perthnasol. Mae’r dogfennau hyn yn glynu wrth yr egwyddorion a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* sef Strategaeth Gwastraff Cenedlaethol ar gyfer Cymru, Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2010, sydd, yn ei thro’n cyd-fynd â gofynion deddfwriaeth Ewropeaidd, yn benodol y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a’r Gyfarwyddeb Tirlenwi.

### Tuag at Ddyfodol Diwastraff – Dogfen Strategaeth Wastraff Drosfwaol ar gyfer Cymru, Mehefin 2010

1.11 Mae’r Strategaeth hon yn nodi fframwaith hirdymor ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau, rhwng nawr a 2050. Ceir ymrwymiad i leihau ôl-troed ecolegol Cymru o fewn cenhedlaeth a chynigion ynghylch sut i leihau ein heffaith ar newid hinsawdd. Bwriad y dull o weithredu diwastraff yw peidio â chynhyrchu gwastraff yn y tymor hir drwy gynllunio cynhyrchion a gwasanaethau sy’n lleihau neu’n ailddefnyddio gwastraff gymaint â phosibl a datblygu economi leol a medrus iawn ar gyfer rheoli gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau.

1.12 Caiff y strategaeth newydd ei rhoi ar waith drwy gynlluniau sectorau unigol. Bydd pob un cynllun unigol yn disgrifio swyddogaeth y sector, Llywodraeth y Cynulliad ac eraill wrth gyflawni’r canlyniadau, y targedau a’r polisïau yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.

### Cynllun y Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP)

1.13 Mae’r CIMSP yn cefnogi *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*, drwy restru canlyniadau, polisïau a chamau cyflawni ar gyfer sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy’n ymwneud a chasglu a rheoli adnoddau gwastraff, a’r defnydd o gynnyrch yn deillio o wastraff. Mae’n ffurfio cyfres o ddogfennau sydd gyda’i gilydd yn cynnwys y strategaeth/cynllun rheoli gwastraff ar gyfer Cymru yn unol â’r gofynion o ran creu cynlluniau a ymgorfforir yn neddfwriaeth Cymru a’r UE.

1.14 Cyhoeddwyd y CIMSP yn 2012 ac roedd yn seiliedig ar ddata sydd erbyn hyn wedi ei ddiweddaru ar gyfer mathau arbennig o ffrwd wastraff. Roedd ffynhonnell y data’n amrywio yn dibynnu ar y ffrwd wastraff dan sylw. Casglwyd data gwastraff diwydiannol,

masnachol a gwastraff adeiladu a dymchwel i gyd drwy ddefnyddio arolygon tra darperir data ar wastraff a gesglir gan awdurdod lleol yn chwarterol yn uniongyrchol gan awdurdodau lleol drwy ddefnyddio'r gronfa ddata Llif Data Gwastraff.

1.15 Defnyddiodd y CIMSP ddata gwastraff Diwydiannol a Masnachol yn seiliedig ar arolwg a gynhaliwyd yn 2007. Ers cyhoeddi'r CIMSP cynhaliwyd dau arolwg pellach, sy'n darparu data ar wastraff sgil-gynhyrchion masnachol a diwydiannol a'u rheolaeth yn 2012 a 2018. Cafwyd data ar Wastraff a Gasglwyd gan Awdurdod Lleol o'r Llif Data Gwastraff sy'n crynhoi data a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yn uniongyrchol. Y cyfnod y mae data'r CIMSP yn cyfeirio ato yw 2009; mae data ar gael nawr ar gyfer 2020/21. Seiliwyd data gwastraff adeiladu a dymchwel ar arolwg a gynhaliwyd yn 2005/06. Ers hynny cynhaliwyd arolwg arall sy'n edrych ar sgil-gynhyrchion gwastraff a reolwyd yn 2012. Serch hynny, ni ellir cymharu'r ddau arolwg yn uniongyrchol gan fod disgrifiadau rhai gwastraffoedd wedi newid.

## Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (Chwefror 2021)

1.16 Mae'r rhifyn diweddaraf o Bolisi Cynllunio Cymru yn rhoi pwyslais ar wneud y defnydd gorau o adnoddau perthnasol a hyrwyddo'r economi gylchol. Ystyr economi gylchol yw un sy'n ceisio cadw deunyddiau, cynhyrchion a chydrannau mewn defnydd gyhyd â phosibl. Mae egwyddorion yr economi gylchol yn gam oddi wrth y model llinellol presennol o wneud, defnyddio a gwaredu ac yn gam tuag at fodel ailddefnyddio, trwsio ac ailgylchu'r gwastraff a gynhyrchir yn ystod datblygiad. Trafodir hyn ymhellach yn adran 4.5 isod.

## Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 Gwastraff (Chwefror 2014)

1.17 Mae Erthygl 16 o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn ei gwneud hi'n ofynnol i aelod-wladwriaethau sefydlu rhwydwaith integredig a digonol ar gyfer cael gwared ar wastraff, ac ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg. Mae TAN 21 yn ei gwneud yn ofynnol monitro'r cynnydd tuag at hyn er mwyn nodi a yw capasiti tirlenwi yn cael ei gynnal; bod capasiti trin digonol yn cael ei gynnal; a yw patrwm gofodol y ddarpariaeth yn briodol i ddiwallu anghenion dynodedig, ac a oes angen camau gweithredu pellach gan awdurdodau cynllunio lleol i fynd i'r afael â materion annisgwyl. Mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP) yn darparu'r man cychwyn strategol ar gyfer monitro.

1.18 Mae TAN 21 yn cynghori bod trothwy uchaf yr ystodau capasiti a nodir yn CIMSP (neu unrhyw ddiweddariad dilynol) yn debygol o gynrychioli'r pwynt pan fo maint y ddarpariaeth mewn rhanbarth yn cael ei ystyried yn ddigonol ar gyfer capasiti adfer. Yn rhanbarth De-orllewin Cymru nodir bod trothwy'r capasiti yn: 34-327 mil o dunelli'r flwyddyn. Ceir yr amrywiad oherwydd lefel yr ansicrwydd ynghylch cyfeintiau o wastraff gweddilliol sydd angen eu rheoli.

1.19 Mae TAN 21 yn cynghori mai 7 mlynedd yw'r lefel pan fo gwagle tirlenwi nad yw'n beryglus yn ddigonol mewn rhanbarth. Bydd y cyfnod y bydd gwagle tirlenwi yn para yn amrywio'n sylweddol gan y bydd yn dibynnu ar nifer o ffactorau gwahanol megis gofynion peirianyddol, cyflenwi dyddiol, cywasgu a chyfraddau sefydlogi a chyfraddau dodi. Gall cyfyngiadau cynllunio hefyd gyfyngu ar faint o'r gwagle gaiff ei ddefnyddio yn y pen draw

gan fod oes caniatâd tirlenwi yn cael ei chyfyngu'n aml gan amodau defnydd. Nid yw TAN 21 yn nodi methodoleg ar gyfer pennu oes safle tirlenwi er bod y CIMSP yn amcangyfrif oes safle tirlenwi ar sail nifer o sefyllfaoedd gwahanol yn dibynnu ar sgil-gynhyrchion gwastraff gweddilliol a chyfraddau dargyfeirio. Amcangyfrifodd y CIMSP, yn y sefyllfa waethaf bosibl, y byddai gwagleoedd tirlenwi yn Ne-orllewin Cymru yn prinhau yn 2020/21 ac, yn y sefyllfa orau bosib, y byddai gwagleoedd yn para am gyfnod amhenodol.

1.20 Mae TAN 21 yn ei gwneud hi'n ofynnol bod Asesiad Cynllunio Gwastraff yn cael ei gynnwys gyda cheisiadau cynllunio ar gyfer cyfleusterau gwaredu, adfer neu ailgylchu. Bwriad yr asesiad yw helpu i lywio penderfyniadau yn ymwneud â cheisiadau ar gyfer rheoli gwastraff yng ngoleuni gofynion TAN 21.

## Cyd-destun Rhanbarthol

### Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru

1.21 Mae TAN 21 yn nodi'r angen am broses cynllunio gwastraff ranbarthol i helpu awdurdodau lleol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yn y dyfodol ac i fod o gymorth wrth baratoi cynlluniau datblygu.

1.22 Gwnaeth TAN 21 hi'n ofynnol i bob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru (y Gogledd, y De-ddwyrain a'r De-orllewin) baratoi Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR) yn flynyddol. Yn 2021 cafodd y 3 rhanbarth eu hail-drefnu yn unol â 3 rhanbarth economaidd Cymru – y Gogledd, y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain. Mae'r adlinio hwn wedi arwain at symud Pen-y-bont ar Ogwr i Ranbarth De-ddwyrain Cymru, a Phowys yn ymuno â Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro, Abertawe, a Chastell-nedd Port Talbot yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Yn ganolog i'r broses o baratoi'r Adroddiad mae casglu a dadansoddi gwybodaeth yn ymwneud â sefyllfa gwastraff ymhob rhanbarth.

1.23 Mae angen gwybodaeth am sefyllfa gwastraff pob rhanbarth i fonitro'i sgil-gynhyrchion, adfer a gwaredu, ac i wneud rhagolygon o ran sgil-gynhyrchion yn y dyfodol. Mae'n rhaid ymgymryd â her cynllunio ar gyfer rheoli gwastraff a chyfleusterau adfer adnoddau gyda gwybodaeth gadarn. Mae'n bwysig felly cael gwybodaeth gynhwysfawr, gywir, amserol a chyson.

1.24 Mae angen gwybodaeth am reoli gwastraff/cyfleusterau adfer adnoddau'r rhanbarth er mwyn gallu monitro'r broses o gyflawni *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* – o ran y cyfleusterau y mae cynllunio ar eu cyfer yng nghynlluniau datblygu awdurdodau lleol ac o ran y cyfleusterau sy'n gweithredu ar hyn o bryd.

## Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff (WPMR)

1.25 Prif swyddogaeth yr WPMR yw crynhoi a chyflwyno'r holl ddata sydd ar gael i alluogi monitro'n effeithiol sgil-gynhyrchion a chyfleusterau rheoli gwastraff y rhanbarth ac i asesu perfformiad y rhanbarth yn erbyn y targedau a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.

1.26 Bwriad yr wybodaeth a'r dadansoddiad a gyflwynir yn yr adroddiadau yw darparu sail i awdurdodau lleol a sefydliadau eraill i gymryd camau o ran y sgil-gynhyrchion o fewn pob ardal awdurdod lleol, a thrwy hynny, y rhanbarth cyfan. Mae'r Adroddiadau hefyd yn

darparu gwybodaeth i helpu'r diwydiant rheoli gwastraff i wneud penderfyniadau buddsoddi allweddol.

1.27 Mae amcanion adroddiadau'r WPMR yn cynnwys y canlynol:

- Crynhoi ac asesu data sydd ar gael ar yr holl sgil-gynhyrchion yn y rhanbarth er mwyn monitro tueddiadau sgil-gynhyrchion yn y gorffennol ac, yn y pen draw, monitro perfformiad yn erbyn y targedau a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*;

- Crynhoi ac asesu data sydd ar gael ar wagle tirlenwi gyda'r bwriad o ragfynegi capasiti tirlenwi sy'n weddill yn y rhanbarth;

- Crynhoi ac asesu data sydd ar gael ar y sgil-gynhyrchion a rheoli gwastraff gweddilliol a gwneud sylwadau ar y cynnydd a wneir tuag at fodloni targedau o ran dewisiadau eraill heblaw tirlenwi;

- Crynhoi ac asesu data ar ddatblygu polisïau gwastraff mewn Cynlluniau Datblygu er mwyn monitro gweithredu darpariaethau TAN 21 Gwastraff;

- Crynhoi gwybodaeth am brosesau rheoli gwastraff presennol awdurdodau lleol a'u cynlluniau adfer adnoddau a chaffael yn y dyfodol;

- Nodi unrhyw fylchau data sy'n bodoli;

- Darparu argymhellion y gellir eu dwyn ymlaen a'u defnyddio wrth greu adroddiadau WPMR yn y dyfodol.

**Cyd-destun Polisi Lleol**

**Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin (2014-2021)**

1.28 Mae'r polisïau cynllunio mewn cysylltiad â rheoli gwastraff yn Sir Gaerfyrddin wedi eu cynnwys yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLl) Sir Gaerfyrddin. Mabwysiadwyd y CDLl ym mis Rhagfyr 2014, ac mae'r polisïau a'r cynigion sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun cyfredol hwn wedi cyfrannu at ddarparu sylfaen ddefnyddiol i ddatblygu'r materion, polisïau a chynigion fel rhan o'r gwaith paratoi ar gyfer y CDLl Adneuo Diwygiedig. Mae'r Cynllun yn cynnwys tri pholisi gwastraff – un polisi strategol a dau bolisi pwnc penodol. I grynhoi:

*Polisi SP12-Rheoli Gwastraff* – polisi strategol, yn rhannol ar sail meini prawf/yn rhannol yn ymwneud â safle penodol, yn seiliedig ar hierarchaeth gwastraff ac yn ffafrio lleoli cyfleuster gwastraff o fathau arbennig mewn mannau cyflogaeth B2 a neilltuwyd;

*Polisi WPP1-Cyfleuster Rheoli Gwastraff Nant-y-caws* – polisi pwnc penodol yn ffafrio parhau i ddefnyddio safle hirsefydlog ar gyfer amrywiaeth o ddefnydd o ran rheoli gwastraff;

*Polisi WPP2-Cyfleusterau Rheoli Gwastraff y tu allan i Derfynau Datblygu* – polisi pwnc penodol yn darparu ar gyfer lleoli cyfleusterau posib mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan bolisïau SP12 a WPP1

## Monitro'r CDLl

1.29 Cyhoeddodd yr Awdurdod ei chweched Adroddiad Monitro Blynyddol ym mis Hydref 2022. Yn sgil dileu gwastraff fel dangosydd allweddol ar y lefel genedlaethol, dim ond un targed monitro sydd gan y CDLl ar gyfer gwastraff (o ran creu Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) yng Nghyfleuster Gwastraff Nant-y-caws). Serch hynny mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn pwysleisio bod yr angen am y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn wedi ei ddisodli gan dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff [Rhanbarthol] Canolbarth a De-orllewin Cymru. Bydd monitro ar lefel y CDLl yn y dyfodol yn unol â pholisi cenedlaethol sef Polisi Cynllunio Cymru a TAN 21, ynghyd â thystiolaeth ac argymhellion yn y dyfodol a gaiff eu cynnwys mewn Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff dilynol. Caiff manylion ynghylch y defnydd o dir mewn mannau cyflogaeth B2 ei monitro'n fisol a'u cynnwys mewn Adolygiad o Dir Cyflogaeth blynyddol a gaiff ei gyhoeddi bob mis Hydref ochr yn ochr â'r Adroddiad Monitro Blynyddol. Caiff manylion ceisiadau/caniatâd newydd ar gyfer cyfleusterau gwastraff (ar safleoedd B2 neu beidio) eu monitro yn rhan o'r broses barhaus hon (gweler Atodiad 2, isod).

## Adolygiad o'r CDLl

1.30 Ar 10 Ionawr 2018, penderfynodd y Cyngor Sir baratoi CDLl diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Cyflwynwyd gwahoddiad ar gyfer safleoedd ymgeisiol ym mis Chwefror 2018 a ddaeth i ben ar 29 Awst 2018, a daeth yr ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir Ddrafft i ben ar 8 Chwefror 2019.

## Strategaeth Cyn Adneuo a Ffefrir Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin

1.31 Cyhoeddwyd y Fersiwn Ddrafft o'r Strategaeth Cyn Adneuo a Ffefrir ar gyfer ymgynghoriad ym mis Tachwedd 2018. Mae'n nodi un polisi strategol o ran gwastraff; ac fe ategir polisïau a chynigion manwl a gaiff eu llunio fel rhan o'r CDLl diwygiedig (sy'n cael ei baratoi ochr yn ochr â'r papur pwnc hwn). Bydd hyn yn caniatáu i ragor o'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf gael eu cymhathu wrth i'r broses o greu cynlluniau fynd rhagddi.

## CDLl Diwygiedig Adneuo

1.32 Cyhoeddwyd y CDLl Diwygiedig Adneuo yn wreiddiol ar gyfer ymgynghoriad yn 2020. Fodd bynnag, yn sgil y pandemig Covid-19, a chanllawiau cynllunio dros dro gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar fynd i'r afael â lefelau ffosffad mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol, mae oedi wedi bod a bu'n rhaid dechrau ar y gwaith o lunio ail Gynllun Datblygu Lleol Adneuo. Bydd yr ail CDLl Adneuo yn cynnwys Newidiadau Penodol y cytunwyd arnynt yn flaenorol (lle maent yn parhau'n berthnasol). Bydd hefyd yn adlewyrchu ac yn ymateb i adfer yn sgil Covid-19, yr agenda carbon sero net a datgarboneiddio, Nodyn Cyngor Technegol 15 / Mapiau Llifogydd Diwygiedig newydd, a Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

1.33 Yn 2022 cyflwynwyd amserlen newydd i Lywodraeth Cymru a chafodd ei chymeradwyo ganddi. Rhagwelir y bydd yr Ail CDLl Adneuo yn cael ei gyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch ym mis Ionawr 2023.

1.34 Mae'r Ail CDLl Diwygiedig Adneuo yn cynnwys 4 polisi newydd sy'n ymwneud â gwastraff, gan gymryd y canllawiau polisi cenedlaethol diweddaraf a amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn enwedig mewn perthynas â hyrwyddo'r economi gylchol a sicrhau bod egwyddorion gwneud lleoedd yn cael eu hymgorffori yn y cynllun. I grynhoi:

*Polisi Strategol – SP 19: Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy* - polisi strategol, yn rhannol yn feini prawf / yn rhannol yn ymwneud â safle penodol, yn canolbwyntio ar yr hierarchaeth gwastraff ac egwyddorion agosrwydd a hunangynhaliaeth, ac yn ffafrio lleoli cyfleusterau gwastraff o fathau arbennig ar safleoedd cyflogaeth B2 a ddyrannwyd;

*WM1 Rheoli Gwastraff yn Gynaliadwy a Datblygiadau Newydd* – sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynigion datblygu newydd wneud darpariaeth ar gyfer lleihau ac ailgylchu gwastraff o fewn eu dyluniad;

*WM2: Cynigion Tirlenwi* – sy'n cydnabod y bydd dal i fod angen tirlenwi ar lefel ranbarthol ac y dylai awdurdodau unigol wneud darpariaeth yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol er mwyn darparu ar gyfer hyn pe bai angen;

*WM3: Tir Amaethyddol - Gwaredu Gwastraff Anadweithiol* – sy'n galluogi rhoi deunyddiau gwastraff anadweithiol i wella tir amaethyddol, ar yr amod bod y gweithrediad yn bodloni meini prawf penodol, gan gynnwys ei fod yn cael ei ystyried yn 'weithred adfer’.

## 2.0 Rheoli Gwastraff yn Sir Gaerfyrddin – y sefyllfa leol

### Ffrydiau Gwastraff

2.1 Fel Awdurdod Cynllunio Gwastraff, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â chynllunio defnydd tir o ran y mathau canlynol o wastraff a reolir:

Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol (LACW);
Gwastraff Diwydiannol a Masnachol (I&C);
Gwastraff Adeiladu a Dymchwel (C&D);
Gwastraff Amaethyddol; a
Gwastraff Peryglus.

2.2 Mae’r gwaith o reoleiddio a monitro gweithdrefnau rheoli gwastraff a safleoedd yn cael ei rannu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a Chyngor Sir Caerfyrddin fel yr Awdurdod Cynllunio Gwastraff. Mae gan yr Asiantaeth gyfrifoldeb am safonau gweithredu ar safleoedd, a’r posibilrwydd y gallent lygru’r amgylchedd. Mae’r Awdurdod Cynllunio Gwastraff yn gyfrifol am faterion rheoleiddio megis defnydd tir, colli amwynder, symudiadau traffig, terfynau amser ar gyfer gweithrediadau, proffiliau daear terfynol, adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd o safleoedd ac ati, drwy ei bolisi cynllunio a’i swyddogaethau rheoli datblygu.

2.3 Mae Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yn pwysleisio y bydd ymgysylltu effeithiol â rheolwyr gwastraff awdurdodau lleol yn elfen angenrheidiol o gynllunio gwastraff. Darparwyd yr wybodaeth a nodir ym mharagraffau 2.23-2.53 isod gan Dîm Rheoli Gwastraff y Cyngor.

2.4 Bydd angen i’r CDLl sicrhau ei fod yn darparu ar gyfer unrhyw ofynion newydd, ac felly cynhelir trafodaeth agos â’r swyddogion gwastraff trefol wrth baratoi’r CDLl Diwygiedig. Er enghraifft, bydd angen i’r CDLl wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau sy’n annog symud gwastraff i fyny hierarchaeth gwastraff, ac felly dylai fod yn ddigon cefnogol o safleoedd dod â gwastraff, cyfleusterau cyfleusterau dinesig, gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a chyfleusterau adennill deunydd.

**Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol (LACW)**

2.5 Ar y cyfan mae LACW yn cynnwys gwastraff y cartref a gwastraff arall a gesglir gan yr Awdurdod Casglu Gwastraff (Cyngor Sir Caerfyrddin) gan gynnwys gwastraff parciau trefol a gerddi, gwastraff glanhau traethau, rhywfaint o wastraff masnachol a diwydiannol a gwastraff yn sgil tipio anghyfreithlon. Mae gwastraff y cartref yn cynnwys gwastraff a gesglir o gartrefi (gan gynnwys gwastraff y cartref peryglus a gwastraff gardd), gwastraff o safleoedd cyfleusterau dinesig ac o safleoedd dod â gwastraff a chynlluniau casglu deunydd ailgylchadwy ar garreg y drws, gwastraff sgubo strydoedd, casglu gwastraff swmpus a chasglu sbwriel.

2.6 Fel Awdurdod Gwastraff Trefol, mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gyfrifol am reoli’r holl LACW yn y Sir yn ddiogel a hefyd am gyflawni’r targedau ar gyfer lleihau gwastraff ac ailgylchu a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*.

2.7 Ymdrinnir â’r LACW yn Sir Gaerfyrddin yn fwy manwl ym mharagraff 2.21 isod.

**Gwastraff Diwydiannol a Masnachol**

2.8 Gwastraff Diwydiannol yw gwastraff o unrhyw ffatri neu broses ddiwydiannol (ac eithrio mwyngloddiau a chwareli). Gwastraff Masnachol yw gwastraff a ddaw o safleoedd a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu’n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon, hamdden neu adloniant, ac eithrio LACW a Gwastraff Diwydiannol.

2.9 Lleolir y rhan fwyaf o ddiwydiant Sir Gaerfyrddin yn ne-ddwyrain y Sir a’r cynhyrchydd gwastraff mwyaf yw Corus yn Llanelli. Serch hynny, prin yw’r data am y ffrwd wastraff hon, ac ni cheir ffynhonnell data flynyddol barhaus. Cynhaliwyd yr Astudiaeth ddiwethaf o wastraff diwydiannol a masnachol ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018 a'i chyhoeddi yn 2020.

2.10 Roedd Astudiaeth 2018 yn ymdrin â data fesul rhanbarth yn hytrach na mynd i lawr i lefel awdurdodau lleol. Nododd yr adroddiad, o gymharu â'r astudiaeth gynharach ar wastraff diwydiannol a masnachol a gynhaliwyd yn 2012, ar lefel Cymru gyfan roedd yna newid ystadegol arwyddocaol yng nghyfanswm y gwastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru; fodd bynnag, nid oedd y gostyngiad cyffredinol hwn yn ddigon i gyrraedd y targedau gostyngiad yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff*. Nid oedd y canlyniadau'n dweud yn bendant a oedd y cynnydd yn swm y gwastraff a baratowyd i'w ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i gompostio gan y sectorau Diwydiannol a Masnachol gyda'i gilydd yn 2018 yn arwyddocaol yn ystadegol o gymharu â 2012. Fodd bynnag, roedd canlyniadau'r arolwg yn dynodi fod y gostyngiad yn swm y gwastraff a anfonwyd i Safleoedd Tirlenwi gan y sectorau Diwydiannol a Masnachol gyda'i gilydd yn ystadegol arwyddocaol o gymharu â 2012 ac felly roedd gostyngiad wedi digwydd, ac roedd y targed *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* ar gyfer 2019/20 wedi'i gyrraedd.

**Gwastraff Adeiladu a Dymchwel**

2.11 Gwastraff Adeiladu a Dymchwel yw gwastraff sy'n deillio o adeiladu, atgyweirio, cynnal a chadw a dymchwel adeiladau, gan gynnwys ffyrdd. Yn bennaf, mae'n cynnwys bric, concrid, rwbel, isbridd ac uwchbridd, ond gall hefyd gynnwys pren, metel a phlastigion.

2.12 Ni cheir ffigurau dibynadwy ar gyfer Sir Gaerfyrddin ac mae'n anodd amcangyfrif tunelleddau. Mae gan Sir Gaerfyrddin ardal drefol fawr o amgylch Llanelli a Dyffryn Aman lle ceir prosiectau adeiladu. Fel rhan o weithrediadau'r Cyngor ei hun, defnyddir peiriannau mathru symudol a sgriniau yn aml yn nepo Glanaman er mwyn ailddefnyddio deunydd ymylfeini ar lwybrau troed a gweithgareddau eraill lle nad oes gofyn am ddeunydd ffordd o safon uchel. Cymerir rhywfaint o wastraff adeiladu a dymchwel o gartrefi ymhob un o ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref y Cyngor, a derbynnir swmp mawr o wastraff cartref a gwastraff adeiladu a dymchwel masnachol mewn llawer o orsafoedd trosglwyddo.

2.13 Fel yn achos gwastraff Diwydiannol a Masnachol, a nodir uchod, ni chedwir data ar wastraff Adeiladu a Dymchwel yn flynyddol. Cynhaliwyd astudiaethau yn ysbeidiol, a'r ddiweddaraf yw arolwg o wastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchwyd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn galendr 2012 a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar ran Llywodraeth Cymru.

2.14 Roedd Astudiaeth 2012 yn ymdrin â data fesul rhanbarth yn hytrach na mynd i lawr i lefel awdurdodau lleol. Roedd y gyfradd o ran paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill deunydd arall ar gyfer y gwastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchwyd yn rhanbarth De-orllewin Cymru yn 67% yn 2012. Gellir cymharu hyn â thargedau Llywodraeth Cymru i gynyddu'r gwaith paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill deunydd arall i leiafswm o 70% erbyn 2015/16 a 90% erbyn 2019/20. Felly, er bod y canlyniadau yn dangos bod y sector Adeiladu a Dymchwel ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau hyn, mae diffyg data ers 2012 yn ei gwneud hi'n anodd gwneud cymariaethau mwy diweddar.

**Gwastraff Amaethyddol**

2.15 Gwastraff Amaethyddol yw gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu ar safleoedd amaethyddol o ganlyniad i weithgaredd amaethyddol. Daeth rheoliadau gwastraff amaethyddol newydd i rym yn 2006. Mae pob gwastraff amaethyddol ac eithrio tail a slyri (pan y'u defnyddir fel gwrtaith) yn dod o dan y rheoliad hwn.

2.16 Mae gan Sir Gaerfyrddin ardaloedd gwledig sylweddol iawn. Serch hynny mae data cywir yn brin (yn lleol neu'n wir yn genedlaethol) ar gyfer y symiau a'r mathau o wastraff amaethyddol a gynhyrchir, manylion gwaredu, ailddefnyddio ac ailgylchu'r gwastraff. Mae hyn yn creu rhwystr ar gyfer nodi targedau priodol i'r sector gyflawni ymrwymiadau *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a datblygu camau gweithredu ar gyfer y sector. Yn sgil hyn, nid yw'n bosibl amcangyfrif graddfeydd cyffredinol ailddefnyddio, ailgylchu, adennill ynni na thirlenwi.

2.17 Er gwaethaf prinder data ar wastraff amaethyddol, mae'n werth nodi bod prosiect newydd ar droed yn Sir Gaerfyrddin sydd â'r nod o leihau gwastraff fferm. Yn llywio'r

prosiect mae campws amaethyddol Coleg Sir Gâr yng Ngelli Aur a Power & Water, cwmni o Abertawe sy'n arbenigo mewn triniaethau dŵr electrocemegol. Mae'r prosiect wedi cael arian gan Lywodraeth Cymru, a bydd yn defnyddio technoleg arloesol â chysyniad sydd wedi ei brofi i leihau llygredd dŵr ac aer i leihau cyfaint cyffredinol slyri hyd at 80%.

**Gwastraff Peryglus**

2.18 Mae Gwastraff Peryglus yn cwmpasu amrywiaeth eang o ddeunyddiau gwastraff sy'n cyflwyno lefelau gwahanol o berygl i iechyd pobl a'r amgylchedd. Ym mis Gorffennaf 2004 fe wnaeth Rheoliadau (Cymru a Lloegr) Tirlenwi wahardd yr arfer o gyd-waredu gwastraffoedd peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus yn yr un safle tirlenwi gan gyflwyno'r gofyn i wastraff peryglus gael ei drin cyn iddo fynd i safle tirlenwi. Yn 2005 nododd Reoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) a Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) fod nifer cynyddol o wastraffoedd yn cael eu hystyried yn 'beryglus', gan gynnwys monitorau cyfrifiaduron, setiau teledu a rhywfaint o offer trydanol ac electronig gwastraff, tiwbiau fflworoleuol, a phlaladdwyr.

Mae Tabl 1 isod yn nodi'r cyfeintiau o sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yn Sir Gaerfyrddin rhwng 2012 a 2020.

**Tabl 1. Sgil-gynhyrchion gwastraff peryglus yn Sir Gaerfyrddin**

| | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwastraff Peryglus (Tunelli) | 11,316 | 13,111 | 11,194 | 11,422 | 12,716 | 14,908 | 15,337 | 9,673 | 19,729 |

Ffynhonnell: Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru 2022

2.19 Mae maint y gwastraff peryglus a gynhyrchir yn Sir Gaerfyrddin (fel yn rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn gyfan gwbl) wedi aros yn weddol gyson dros y blynyddoedd diweddar, gyda pheth amrywiadau. O ran rheoli'r gwastraff hwn, canfu adroddiad a luniwyd fel tystiolaeth ar gyfer Cynllun y Sector Casglu, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP) yn 2009 fod gan Gymru lawer iawn o gyfleusterau ar gyfer casglu a storio deunyddiau gwastraff peryglus dros dro - 168 o gyfleusterau, a bod gan y Sir hefyd amrywiaeth eang o weithfeydd trin cemegol, ffisegol a ffisico-gemegol gyda chapasiti cyfunol o tua 1.8 miliwn o dunelli.

2.20 Yn fwy diweddar, nododd Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff Canolbarth a De-orllewin Cymru (2022) fod yr achosion o symud gwastraff peryglus o Dde-orllewin Cymru i Loegr yn ystod yr 8 mlynedd diwethaf wedi bod yn eithaf cyson, tra bod gostyngiad cyffredinol wedi bod yn swm y gwastraff peryglus o Gymru sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn Lloegr rhwng 2013 a 2020 (nid oes safleoedd tirlenwi gwastraff peryglus yng Nghymru).

**Sgil-gynhyrchion a rheoli Gwastraff a Gesglir gan Awdurdodau Lleol (LACW) yn Sir Gaerfyrddin – y sefyllfa bresennol**

Mae Tabl 2 yn nodi cyfanswm sgil-gynhyrchion LACW ar gyfer Sir Gaerfyrddin 2010-2018, ac yn dangos pa ganran o'r sgil-gynhyrchion hyn gafodd eu hailgylchu a'u compostio.

**Tabl 2. Cyfanswm sgil-gynhyrchion LACW yn Sir Gaerfyrddin a'r canrannau a ailgylchwyd ac a gompostiwyd 2013/14 – 2020/21**

| | 13/14 | 14/15 | 15/16 | 16/17 | 17/18 | 18/19 | 19/20 | 20/21 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm sgil-gynhyrchion LACW (Tunelli) | 77,247 | 77,824 | 78,540 | 83,756 | 86,362 | 88,922 | 78,174 | 77,928 |
| % o LACW a ailgylchwyd ac a gompostiwyd | 55.7 | 59.6 | 63.5 | 66.2 | 63.6 | 58.9 | 64.7 | 66.3 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

2.21 Mae'r data'n dangos bod cyfraddau ailgylchu a chompostio wedi cynyddu'n gyson dros y blynyddoedd. Roedd gostyngiad bach yn y gyfradd ailgylchu gyffredinol yn y cyfnodau 2017/18 a 2018/19; fodd bynnag, cyrhaeddodd yr Awdurdod y targed o 64% ar gyfer 2019/20 (a nodir yn *Tuag at Ddyfodol Dim Gwastraff*) – yr oedd hefyd wedi rhagori arno yn 2016/17.

2.22 Mae CWM Environmental Ltd, sy'n gwmni 'teckal' i'r awdurdod lleol, yn gyfrifol am ailgylchu, trin a gwaredu gwastraff trefol a gesglir yn y Sir.

**Proffil y Gwasanaeth Gwastraff**

2.23 Mae'r Adran Wastraff wedi'i lleoli yng Nghaerfyrddin ac yn cael ei harwain gan y Pennaeth Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff. Mae'n cynnwys pedair adain: Strategaeth a Pholisi Gwastraff, Gweithwyr Casglu Gwastraff a Sbwriel, Glanhau a Chynnal a Chadw Tiroedd a Gorfodi Materion Gwastraff.

2.24 Mae'r Cyngor yn darparu casgliadau gwastraff bwyd wythnosol o dŷ i dŷ ynghyd â chasgliadau gwastraff gweddilliol mewn bagiau du a deunyddiau cymysg i'w hailgylchu mewn bagiau glas bob yn ail wythnos o dŷ i dŷ. Mae cerbydau'r fflyd yn casglu ffrydiau deuol yn bennaf ar gyfer casgliadau o dŷ i dŷ. Mae gwastraff bwyd yn cael ei gasglu mewn podiau sydd ar wahân i'r bagiau gwastraff gweddilliol neu fagiau ailgylchu.

2.25 Mae Cerbydau Casglu Gwastraff y Cyngor yn gollwng gwastraff a gasglwyd ar eu rowndiau dyddiol yn y depos/mannau swmpgasglu canlynol:

Caerfyrddin – cyfleuster Nant-y-caws
Llanelli – cyfleuster Trostre
Rhydaman – cyfleuster Wernddu
Llain 15 (Gwydr yn unig) – Ystâd Ddiwydiannol Trostre

**Casglu Deunydd Ailgylchu a Gwastraff Gweddilliol o Dŷ i Dŷ**

2.26 Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth ailgylchu deunydd cymysg mewn bagiau glas diderfyn, a gesglir bob yn ail wythnos gyda chasgliadau gwastraff bwyd bob wythnos a hyd at dri bag du yn cynnwys gwastraff gweddilliol bob pythefnos fesul casgliad. I'r rheiny y mae angen eithriadau arnynt h.y. plant mewn cewynnau, teuluoedd o chwech neu

fwy ac mewn amgylchiadau arbennig, rhaid i breswylwyr wneud cais drwy ffurflen ar-lein a chyflwyno cais a brosesir ac a awdurdodir, sy'n caniatáu iddynt ddefnyddio hyd at dri bag du ychwanegol y mae'n rhaid iddynt fod â sticer eithrio i adnabod y bagiau ychwanegol ac y gellir cyflwyno hyd at chwe bag ohonynt. Mae CWM Environmental Cyf yn gwmni 'Teckal' ac yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Maent yn byrnu deunyddiau i'w hailbrosesu, gyda gwastraff gweddilliol y Sir yn cael ei anfon i gyfleusterau ynni o wastraff (EFW) yn Ewrop a'r DU a chaiff swm bach ei anfon i safle tirlenwi yn Nhrecatti a/ neu Bwllfawatkin. Ar hyn o bryd mae'r deunyddiau ailgylchu mewn bagiau glas yn cael eu trosglwyddo i amrywiol gyfleusterau didoli yn y DU ac yn cael eu gwerthu i safleoedd ailbrosesu yng ngwledydd y DU, Ewrop ac ymhellach.

2.27 Yn ystod Medi 2021 a hyd at ddiwedd Mawrth 2022 cafodd pob cartref yn Sir Gaerfyrddin dri rholyn o fagiau ailgylchu glas. Mae hyn yn cyfateb i 156 o fagiau, sef chwe bag yr wythnos gasglu ar gyfartaledd. Gan fod nad oes cyfyngiad ar nifer y bagiau glas y gellir eu rhoi allan i'w casglu, gall trigolion fynd i fannau casglu dynodedig i gael mwy o fagiau glas. Mae dosbarthu'r rhain bob blwyddyn yn darparu gwasanaeth mwy hwylus i bawb, gyda bagiau yn cael eu darparu i gartrefi yn hytrach na thrigolion yn gorfod mynd i'w casglu. Mae hyn yn galluogi trigolion i ailgylchu mwy a lleihau nifer y bagiau gwastraff gweddilliol duon. Mae gan y Cyngor 17 o fannau sy'n stocio bagiau glas ac sydd wedi'u rhestru ar wefan yr awdurdod. Mae lleoli'r rhain mewn lleoliadau fel siopau yn caniatáu i drigolion gael mwy os oes angen, wrth iddynt siopa am fwyd ac ati ac yn unol â chanllawiau'r llywodraeth. Mae nwyddau ychwanegol hefyd yn cael eu darparu gan y gwasanaeth dosbarthu i gynorthwyo'r rheiny a oedd yn gaeth i'r tŷ neu'n cysgodi.

**Casglu gwastraff bwyd cartref**

2.28 Darperir cadi cegin brown 5 litr a bin gwyrdd 23 litr yn rhad ac am ddim i drigolion ar gyfer casglu bwyd yn wythnosol. Darperir cynwysyddion cyfnewid am ddim ar gais. Mewn lleoliadau lle mae mynediad yn gyfyng darperir leinin startsh 'goroesi' ar gyfer y bin gwyrdd 23 litr yn rhad ac am ddim i ganiatáu ar gyfer casglu gwastraff ailgylchadwy cymysg gyda cherbyd cefn cawell 3.5t. Mae cartrefi sy'n cael eu gwasanaethu gan y cerbyd cawell 3.5t hefyd yn derbyn cyflenwad blwyddyn o'r bagiau leinio gwastraff 30 litr mwy o faint y gellir eu compostio a rhai 7 litr llai ynghyd â bagiau glas. Mae'r bagiau leinio 7 litr, yr un peth â'r bagiau ailgylchu, yn cael eu danfon mewn pecyn o dri rholyn sy'n cynnwys 156 o fagiau, gan ddarparu tua thri yr wythnos ar gyfartaledd. Mae deiliaid tai sydd hefyd yn derbyn y bagiau leinio 30 litr yn cael dwy rôl sy'n cynnwys 52 o fagiau. Gellir cael bagiau leinio ychwanegol mewn lleoliadau penodol/siopau a thrwy ein gwasanaeth dosbarthu sy'n eu rhoi i aelwydydd unigol pan fo angen.

2.29 Caiff gwastraff bwyd ei ddanfon i Wernddu, Trostre a Nant-y-caws. Mae Wernddu a Throstre yn gyfleusterau swmpgasglu ac wedyn caiff y bwyd ei gludo i CWM Environmental ar safle Nant-y-caws, ac oddi yno caiff ei drosglwyddo oddi ar y safle i safleoedd Treulio Anaerobig Agrivert, a leolir ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Wallingford a Cassington.

**Casglu gwastraff gardd cartref**

2.30 Mae'r Cyngor yn gweithredu gwasanaeth biniau gwastraff gardd bob pythefnos a chodir tâl amdano. Yn ystod tymor 2021 bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid gwastraff gardd oherwydd y cyfyngiadau parhaus gyda'r pandemig Coronafeirws; fodd bynnag, lliniarwyd hyn i raddau drwy agor y Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a gwaredu gwastraff

gwyrdd yn y cyfleusterau hyn.  Mae cwsmeriaid gwastraff gardd wedi tanysgrifio i brynu un neu fwy o finiau gwastraff gardd 240 litr ar gyfer y tymor.

2.31 Parheir i annog cartrefi i gompostio gartref drwy brynu bin compost am £12 neu fel arall fynd â'r gwastraff gardd i'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref lle bo'n bosibl.  Caiff y gwastraff gardd ei brosesu yn Nant-y-caws trwy gyfleuster rhesgompostio CWM Environmental a'i werthu fel Merlin's Magic Compost neu gyflyrydd pridd.

**Casglu Gwastraff Annymunol a Chlinigol**

2.32 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth casglu gwastraff hylendid o dŷ i dŷ (Categori E) i tua 1,800 o drigolion ar draws y Sir.  Rhaid i drigolion danysgrifio i'r gwasanaeth rhad ac am ddim hwn, sy'n cael ei drin yng nghyfleuster Nappicycle yng Nghapel Hendre.   Caiff y gyfradd ailgylchu o dros 50% ei chyflawni'n bennaf drwy adennill ffibrau a hylifau seliwlos.  Caiff y gweddill ei anfon fel tanwydd sy'n deillio o sbwriel i safleoedd ynni o wastraff yn Ewrop.

2.33 Darperir gwasanaeth casglu gwastraff clinigol (Categorïau A-D) gan y gwasanaeth GIG lleol, sydd wedi'i gontractio i Natural UK, a leolir ar yr un safle â Nappicycle

**Casglu gwastraff swmpus cartref**

2.34 Mae ein staff casglu gwastraff swmpus cartref yn casglu hyd at dri dodrefnyn neu gyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) o gartrefi trigolion am ffi (ar hyn o bryd £25).  Gall trigolion drefnu casgliad drwy gysylltu â Galw Sir Gâr ar gyfer eu hanghenion neu drwy'r wefan.  Pan fyddwn wedi derbyn y taliad, caiff trigolion ddyddiad casglu drwy'r system archebu electronig.

2.35 Fel dewis cyntaf, mae Galw Sir Gâr yn rhoi gwybod i drigolion am sefydliadau elusennol sy'n gallu darparu gwasanaeth casglu am ddim neu am ffi is er mwyn i eitemau gael eu hailddefnyddio yn unol â hierarchaeth gwastraff.  Hefyd rhestrir enwau sefydliadau ailddefnyddio yn adran gwastraff swmpus tudalennau gwe gwastraff/ailgylchu.

2.36 Maent hefyd yn gwasanaethu'r 15 banc cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff (WEEE) bach sydd wedi'u lleoli ar rai o safleoedd casglu'r Sir lle caiff offer domestig bach a gesglir eu hanfon wedyn i'w prosesu fel rhan o gontract WEEE rhanbarthol trwy gyfrwng ERP.  Caiff y contract ei oruchwylio gan Grŵp Rhanbarthol CLAIRE Wales.

**Casglu gwastraff masnachol**

2.37 Mae Cwm Environmental Ltd yn casglu gwastraff masnach a hefyd yn trefnu'r ochr weinyddol.  Nid yw'r Cyngor yn darparu gwasanaeth gwastraff masnachol yn fewnol mwyach ond bydd yn rhoi cymorth i unrhyw adeilad masnachol gyda chyngor a chefnogaeth o ran cael cytundebau ar gyfer gwaredu gwastraff masnachol yn unol â chanllawiau Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990.

**Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref**

2.38 Mae Cwm Environmental Ltd, ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu 4 Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yn y Sir.

2.39 Ar hyn o bryd mae'r pedwar safle yn gweithredu ar berfformiad ailgylchu cyfunol o 75%. Mae pob safle'n cynnig y cyfuniad nodweddiadol o ddarpariaeth ailgylchu ar wahân sy'n gyffredin i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Mae asbestos wedi'i fondio â sment a phlastrfwrdd hefyd yn cael eu derbyn ond mewn symiau cyfyngedig

2.40 Codir tâl am boteli nwy, diffoddiaduron tân a theiars - nid yw Wernddu yn derbyn diffoddiaduron tân na photeli nwy.

2.41 Mae symiau mwy o blastrfwrdd ac asbestos wedi'i fondio â sment yn cael eu cymryd dros y bont bwyso yn Nant-y-caws a chodir ffi waredu briodol ar y preswylydd. Mae gwiriadau adnabod, hawlenni ar gyfer rhai cerbydau a didoli bagiau du ar y safleoedd i gyd wedi profi'n fenter gadarnhaol a weithredwyd ar ddechrau 2019 i annog pobl i ailgylchu mwy o wastraff domestig ac yn nefnydd y sir o safleoedd Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref.

### Safleoedd Rheoli Gwastraff Presennol

2.42 Mae Tabl 3 isod yn nodi'r safleoedd rheoli gwastraff presennol yn Sir Gaerfyrddin a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i reoli gwastraff solet trefol (MSW).

**Tabl 3. Safleoedd Presennol yn Sir Gaerfyrddin a ddefnyddir gan yr Awdurdod Lleol i reoli MSW**

| Enw / Lleoliad | Disgrifiad |
|---|---|
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Hendy-gwyn ar Daf | Canolfan ailgylchu gwastraff y cartref un lefel fechan ar gyrion Hendy-gwyn ar Daf. Gweithredir gan Cwm Environmental Ltd. |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Canolfan ailgylchu gwastraff y cartref ddwy lefel fawr wedi ei lleoli ychydig filltiroedd o dref Caerfyrddin. Gweithredir gan Cwm Environmental Ltd. |
| Safle Compostio mewn llestr a rhesgompostio Nant-y-caws, Heol Llandarrog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Uned gompostio mewn llestr a rhesgompostio wedi ei lleoli ar wahân gerllaw'r ganolfan ailgylchu gwastraff cartref. Gweithredir gan Cwm Environmental Ltd.<br><br>Mae'r Compostio Mewn Llestr yn anweithredol ar hyn o bryd ac yn cael ei ddefnyddio fel cyfleuster gorsaf drosglwyddo ar gyfer bwyd sy'n mynd i waith treulio anaerobig, sef Agrivert, yn Wallingford a Cassington. |
| Safle tirlenwi gwastraff nad yw'n beryglus Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Gweithredir gan Cwm Environmental Ltd – safle tirlenwi sy'n gallu cymryd yr holl wastraff nad yw'n beryglus o'r awdurdod lleol a chontractwyr preifat. Nid yw'r safle'n weithredol ar hyn o bryd. |
| Cyfleuster Ailgylchu Deunyddiau Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Gweithredir gan Cwm Environmental Ltd. Nid yw'r cyfleuster hwn yn weithredol oherwydd tân blaenorol ac mae'r tir bellach yn cael ei ddefnyddio fel swmp i gludo DMR i'w brosesu. |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Wernddu, Heol Trap, | Canolfan ailgylchu gwastraff y cartref un lefel fechan mewn lleoliad ynysig a weithredir gan Cwm Environmental Ltd. |

| | |
|---|---|
| Wernddu, Rhydaman<br>SA18 9RY | |
| Gorsaf Drosglwyddo Wernddu, Heol Trap, Wernddu, Rhydaman<br>SA18 9RY | Gorsaf trosglwyddo gwastraff y cartref, masnachol a diwydiannol ar gyrion Rhydaman ac yn cael ei gweithredu gan Cwm Environmental Ltd.  Defnyddir y safle i brosesu a storio gwastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd wedi eu casglu yn ardaloedd Rhydaman a Glanaman. |
| Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref, Ystad Ddiwydiannol Trostre, Llanelli SA14 9UU | Canolfan ailgylchu gwastraff y cartref un lefel ynghlwm wrth yr Orsaf Drosglwyddo gyfagos a weithredir gan Cwm Environmental Ltd |
| Gorsaf Drosglwyddo Trostre, Ystad Ddiwydiannol Trostre, Llanelli,<br>SA14 9UU | Gorsaf trosglwyddo gwastraff y cartref, masnachol a diwydiannol ar gyrion Llanelli ac yn cael ei gweithredu gan Cwm Environmental Ltd.  Defnyddir y safle i brosesu a storio gwastraff a deunyddiau y gellir eu hailgylchu sydd wedi eu casglu yn ardal Llanelli. |
| Depo Glanaman | Canolfan gweithredu trafnidiaeth a depo sy’n eiddo i’r Cyngor ac a weithredir ganddo wedi ei leoli yng Nglanaman. |
| Depo Cillefwr | Canolfan gweithredu trafnidiaeth a depo sy’n eiddo i’r Cyngor ac a weithredir ganddo wedi ei leoli ar gyrion Caerfyrddin. |
| Depo Priffyrdd Trostre<br>(2 safle ar wahân) | Canolfan gweithredu trafnidiaeth a depo sy’n eiddo i’r Cyngor ac a weithredir ganddo wedi ei leoli mewn dau leoliad ar gyrion Llanelli. |
| Llain 15, Rhodfa’r De<br>Stad Ddiwydiannol Trostre<br>Llanelli<br>SA14 9UU | Safle wedi'i eithrio ar gyfer cyfleuster swmpio a storio gwydr ar gyfer cynwysyddion gwastraff. |
| Eto<br>31 Heol Stepney<br>Llanelli<br>SA15 3YB | Siop ym mhrif ardal siopa Llanelli sy'n gwerthu eitemau sydd wedi'u hadnewyddu i'w hailddefnyddio o orsafoedd rhoddion CAGC |
| Canolfan Eto<br>Nant-y-caws<br>Heol Llandarrog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Pentref ailddefnyddio ac atgyweirio gerllaw'r CAGC. Gwerthu eitemau sydd wedi'u hadnewyddu ar gyfer eu hailddefnyddio o orsafoedd rhoddion CAGC. Hefyd safle canolfan addysg at ddefnydd gan ysgolion a grwpiau cymunedol |
| Canolfan Ailgylchu Masnachol Nant-y-caws<br>Heol Llandarrog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Wedi'i leoli ar y lefel is, o dan y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig i ddarparu ailgylchu ar gyfer y sector masnachol yn unol â deddfwriaeth sydd ar y gweill ar gyfer adeiladau masnachol i wahanu eu gwastraff. |
| Depo Heol Stanllyd<br>Uned 24A<br>Heol Stanllyd<br>Cross Hands<br>Llanelli<br>SA14 6RB | Depo ar brydles am bum mlynedd (gyda chymal egwyl 2 flynedd) i'w ddefnyddio fel depo fflyd ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gwastraff fel rhan o'r Newidiadau Gwastraff a chyfleuster storio ar gyfer cynwysyddion gwastraff |

**Gwastraff anadweithiol**

2.43 Mae nifer o gyfleusterau trin gwastraff anadweithiol yn y Sir. Er enghraifft, mae'r cyfleuster yn Nafen, Llanelli yn gallu trin 20,000 o dunelli, a'r un yng Nghapel Hendre, 25,000 o dunelli. Mae cyfleusterau pellach wedi'u cynllunio, gyda chaniatâd cynllunio wedi'i roi ar safleoedd yn Nhrostre, a Chwmgwili.

**Safleoedd Casglu Gwastraff Ailgylchu Cymunedol**

2.44 Ar hyn o bryd, mae Sir Gaerfyrddin yn gweithredu 121 o safleoedd casglu gwastraff ailgylchu cymunedol ledled y Sir. Arweiniodd adolygiad o'r safleoedd casglu yn 2020/2021 at symud banciau papur a chaniau o'r safleoedd ailgylchu cymunedol gan fod modd rhoi'r rhain yn y bagiau ailgylchu glas a gesglir o dŷ i dŷ bob pythefnos. Gall safleoedd amrywio o ran y ffrydiau ailgylchu maen nhw'n eu cynnig fel gwydr, cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff, cyfryngau a thecstilau. Cafodd darpariaeth banciau gwydr ei gwella mewn safleoedd lle cesglir tunelledd uchel bob wythnos i fodloni gofynion o fewn y cymunedau lleol. Cesglir y gwydr gan dimau casglu mewnol y Cyngor h.y. cerbydau casglu pwrpasol cerbydau 2 x 3 adran, 1 x lori sy'n codi gyda lifft bachyn, a chesglir biniau casglu cyfarpar trydanol ac electronig gwastraff gan ein Timau Casglu Gwastraff Swmpus. Trosglwyddir deunyddiau i Ganolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a Gorsafoedd Trosglwyddo Trostre/Wernddu a gwydr i safle swmpgasglu'r Cyngor ei hun ar Lain 15, Ystad Ddiwydiannol Trostre. Caiff y gwydr ei gludo gan y Cyngor sydd â chontract gyda Recresco yng Nghwmbrân.

**Addysg ac Ymwybyddiaeth**

2.45 Yn yr Adain Gwastraff, mae'r Tîm Addysg ac Ymwybyddiaeth yn cynnig cymorth a chyngor i'r cyhoedd ynghylch y cynllun ailgylchu a gwastraff bwyd cyfunol.

2.46 Mae Ymgynghorwyr Ailgylchu Cymunedol yn gweithio yn y gymuned i gynorthwyo trigolion i gael gafael ar yr adnoddau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn cyfrannu'n llawn at y cynllun ailgylchu o dŷ i dŷ a chefnogaeth gydag unrhyw bryderon ailgylchu pellach a allai fod ganddynt. Defnyddir technegau newid ymddygiad i annog cymdogion i gymryd rhan fel y rheiny ar yr un stryd/yn y gymuned er mwyn iddynt ailgylchu cymaint o'u gwastraff â phosibl. Mae gwaith adnabod hefyd yn cael ei wneud drwy fonitro a dadansoddi dyddiad tunelledd er mwyn nodi'r ardaloedd hynny y mae angen gwybodaeth a chefnogaeth ychwanegol arnynt i ddefnyddio'r cynllun ailgylchu o dŷ i dŷ. Defnyddir unrhyw themâu cyffredin o arolygon ac ati i ffurfio rhan o'r prosesau yn y dyfodol er mwyn sicrhau ei bod mor hawdd â phosibl i bawb gyfrannu at ailgylchu. Mae'r gwasanaeth hwn wedi cael ei atal am gyfnod oherwydd na fu llawer o ymgysylltu â'r cyhoedd yn sgil y pandemig coronafeirws. Mae'r gwasanaeth yn dechrau ailddechrau gyda mentrau penodol i newid ymddygiad.

2.47 Defnyddir y cyfryngau cymdeithasol ar y cyd â gwefan yr Awdurdod Lleol i hysbysu preswylwyr am newidiadau i gasgliadau yn ystod y Nadolig ac ar wyliau banc, oedi oherwydd tywydd gwael, datganiadau i'r wasg ac ar gyfer hyrwyddo digwyddiadau ailgylchu. Mae ein gwefan yn hyrwyddo'r holl wasanaethau a gynigir gan yr Adain Casglu Gwastraff a gellir gofyn am lawer o wasanaethau, rhoi gwybod neu dalu amdanynt ymlaen llaw ar-lein. Datblygwyd canllaw A-Y cynhwysfawr o ailgylchu a swyddogaeth lleihau gwastraff ychwanegol 'Mynd yr ail filltir' i annog trigolion i ailgylchu popeth y gallant a'u

hannog i leihau gwastraff yn y lle cyntaf. Dyma oedd un un o brif ddulliau'r Cyngor i gyfathrebu â thrigolion ynghylch y newidiadau yn sgil y pandemig yn ystod 2020 ac a allai fod wedi cael effaith ar newidiadau i wasanaethau gwastraff.

### Gwastraff Trefol Pydradwy

2.48 O ran dargyfeirio gwastraff trefol pydradwy oddi wrth safleoedd tirlenwi, mae Sir Gaerfyrddin eisoes yn cyrraedd targedau sy'n llawer is na'r cwota uchaf y nodir y caiff ei ganiatáu yn y Cynllun Lwfansau Tirlenwi ar gyfer Sir Gaerfyrddin – gweler Tabl 2.48 isod.

**Tabl 4. Lwfansau tirlenwi ar gyfer Sir Gaerfyrddin rhwng 2013 a 2020 o'u cymharu â nifer y tunelli o wastraff trefol pydradwy a anfonwyd i safleoedd tirlenwi**

| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Uchafswm y Lwfans Tirlenwi (Tunelli) | 24,228 | 23,151 | 22,074 | 20,997 | 19,920 | 18,844 | 17,767 |
| Y Gwastraff Trefol Pydradwy gwirioneddol a anfonwyd i safleoedd tirlenwi (Tunelli) | 17,681 | 7,175 | 2,278 | 2,388 | 11,263 | 12,822 | 5,295 |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru, Adroddiad ar y Cynllun Lwfansau Tirlenwi yng Nghymru yn 2019/20 a Chofrestr o'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi yng Nghymru o 2004 ymlaen.

### Datblygiadau yn y Dyfodol

2.49 Mae'r Awdurdod yn dal i gydweithio'n agos â WRAP Cymru ar y Rhaglen Newid gydweithredol i ddeall agweddau gweithredu / gwaredu a thrin casgliadau y newid gwasanaeth sydd ar y gweill yn Sir Gaerfyrddin. Bydd hyn yn rhoi ystyriaeth i'r gofynion seilwaith a cherbydau, yr addewid Carbon Sero Net yn ogystal ag ymdrechu tuag at strategaeth Mwy nag Ailgylchu ac Economi Gylchol Llywodraeth Cymru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a bydd yn arwain at ganiatáu i'r awdurdod gynllunio ar gyfer y newid gwasanaeth yn rhannol erbyn 2022 ac ymhellach yn 2024 pan fydd y fflyd bresennol o gerbydau sbwriel / ailgylchu yn cyrraedd diwedd eu cyfnod gwasanaeth. Bydd casgliadau gwydr o dŷ i dŷ yn dechrau yn hydref 2022, bob tair wythnos i ddechrau ynghyd â chasgliad gwastraff gweddilliol bob wythnos. Bydd bagiau ailgylchu glas yn dechrau cael eu casglu bob wythnos yr un peth â'r casgliadau gwastraff bwyd wythnosol. Yn 2024/25 bydd glasbrint Llywodraeth Cymru o ddidoli casgliadau o dŷ i dŷ yn dechrau gyda chasgliadau wythnosol ar wahân ar gyfer yr holl nwyddau y gellir eu hailgylchu. Ar y pwynt hwn bydd y casgliadau gwydr hefyd yn mynd yn ôl i gael eu casglu bob wythnos.

2.50 Mewn cydweithrediad â dilyn cylch cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru 2019/2020, daethpwyd â'r casgliad gwastraff hylendid, a oedd wedi'i gontractio allan yn wreiddiol, yn fewnol yn 2021 gyda'r bwriad o ychwanegu'r casgliad gwastraff cewynnau o dŷ i dŷ yng ngwanwyn 2022. Mae'r grant wedi golygu bod modd prynu pedwar cerbyd Cynnyrch Hylendid Amsugnol (AHP) a gwaith i sefydlu gwasanaethau ymgeisio TG ac mae contractau trin newydd yn cael eu cwblhau er mwyn i'r Cyngor allu gwneud y casgliadau yn fewnol. Bydd hwn yn wasanaeth lle gall trigolion y mae angen casgliad cynhyrchion gwastraff hylendid a chewynnau plant arnynt (sy'n fwy na'r hyn a ganiateir o dan y broses

sticer eithriad ar gyfer lwfans bagiau du ychwanegol) wneud cais a derbyn casgliad yn rhad ac am ddim.  Bydd bagiau porffor yn cael eu dosbarthu ar gyfer y gwasanaeth a bydd y casgliadau'n cael eu gwneud bob pythefnos.  Bydd y cynnyrch gwastraff yn cael ei gasglu gan yr Awdurdod a'i gludo i Nappy Cycle yng Nghapel Hendre i gael ei brosesu, ac yno gellir ailgylchu canran o'r cynnyrch yn hytrach na'i brosesu trwy broses ynni o wastraff.

2.51 Mae trosolwg ar ôl pedwaredd flwyddyn y gwasanaeth gwastraff gardd wedi digwydd ac mae pedwerydd cerbyd ychwanegol wedi'i roi ar waith ar gyfer dechrau tymor 2021/2022.  Bydd hyn yn caniatáu i'r gwasanaeth gael ei ehangu ymhellach gan ganiatáu i fwy o gwsmeriaid danysgrifio ac ymuno â'r gwasanaeth am dâl.  Gan arwain at ddargyfeirio gwastraff trefol pydradwy ychwanegol o safleoedd tirlenwi i gyrraedd targedau a gwella cyfraniad deunydd y gellir ei gompostio tuag at y targedau ailgylchu canrannol.

2.52 Mae grant Economi Gylchol diweddar gan Lywodraeth Cymru a chynigion llwyddiannus wedi caniatáu i Sir Gaerfyrddin ddechrau ar ein taith atgyweirio ac ailddefnyddio.  Bydd y Cyngor yn sefydlu datblygiad ailddefnyddio ar safle Nant-y-caws, yn ystod Gwanwyn 2022, lle bydd modd i drigolion fynd â'u nwyddau gwastraff a fyddai fel arfer yn cael eu gadael yn y Canolfannau Ailgylchu, er mwyn eu harbed a dod o hyd i gartref newydd iddynt rywle arall.  Bwriad y cam hwn yw sicrhau y bydd yr holl gynhyrchion y gellir eu hailgylchu yn cael cyfle i gael eu hailddefnyddio, gan leihau tunelledd gwastraff trwy atgyweirio ac ailddefnyddio.  Bydd gan y ganolfan yn Nant-y-caws hefyd ganolfan addysg a bydd gweithdai yn cael eu cynnal i hyrwyddo atgyweirio ac ailddefnyddio o fewn y gymuned fel y dull a ffefrir cyn ailgylchu a gwaredu yn unol â'r hierarchaeth wastraff.  Mae'r Cyngor hefyd wedi agor siop ailddefnyddio yng nghanol tref Llanelli ym mis Chwefror a fydd yn caniatáu i bobl brynu eitemau am bris fforddiadwy gan ailddefnyddio eitem a fyddai wedi cael ei thaflu yn y gorffennol.

2.53 Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i ddatblygu cyfleuster ailgylchu gwastraff masnachol yn Nant-y-caws yn Haf 2022.  Mae'n canolbwyntio ar ddarparu safle i sector busnes Sir Gaerfyrddin ar gyfer ailgylchu ac ailddefnyddio eu gwastraff trwy ddidoli a gwahanu gwastraff i'r marchnadoedd adfer ac ailgylchu priodol. Bydd y gwastraff hwn wedyn yn cael ei ddefnyddio i greu cynhyrchion cynaliadwy gan weithio tuag at uchelgeisiau economi gylchol Llywodraeth Cymru.  Bydd hyn felly'n cynyddu'n sylweddol faint sy'n cael ei ailgylchu o'r sector busnes ac yn galluogi busnesau o fewn y gymuned i weithredu ar y cyd.  Wrth ddarparu'r cyfleuster hwn, mae'r Cyngor yn ceisio creu'r amodau a fydd yn galluogi busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd i ailgylchu ac ailddefnyddio mwy o'u gwastraff er mwyn lleihau eu hôl troed carbon a dod yn fwy effeithlon o ran adnoddau.  Bydd hyn yn galluogi busnesau lleol i arbed arian ar gostau gwaredu er mwyn dod yn fwy gwydn a chyflawni canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol.

## 3.0 Swyddogaeth Cyngor Sir Caerfyrddin fel Awdurdod Cynllunio Gwastraff

3.1 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn rhoi pwyslais penodol ar y gofyniad bod Cynlluniau Datblygu Lleol yn cynnwys polisïau sy'n ymwneud â lleoliadau addas ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.  Mae Awdurdodau ar draws rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru wedi datblygu cyfuniad o bolisïau sy'n seiliedig ar feini prawf a pholisïau sy'n benodol i'r safle yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol.  Yn benodol, ac yn unol â'r Nodyn Egluro Polisi a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 28 Mai 2004, mae dull cyffredin mewn cysylltiad â chaniatáu mathau penodol o gyfleusterau rheoli gwastraff mewn safleoedd a restrir ar gyfer defnydd cyflogaeth B2.

3.2 Yn flaenorol, y Strategaeth Ofodol yn y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol oedd yn nodi'n fras y lleoliadau neu fath y lleoliadau ar gyfer cyfleusterau newydd ym mhob rhanbarth. Hefyd, cyflwynodd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol ddosraniad y seilwaith i awdurdodau unigol. Fodd bynnag, er bod y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol wedi eu disodli bellach ac nid yw'n ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn meintioli'n benodol faint o ddarpariaeth ar wahân y mae'n debygol y bydd ei hangen ar gyfer cyfleusterau gwastraff yn y dyfodol, mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn dal i'w gwneud yn ofynnol bod cynlluniau datblygu lleol yn nodi lle mae safleoedd addas a phriodol yn bodoli er mwyn darparu pob math o gyfleusterau rheoli gwastraff.

**Nodi tir at ddibenion rheoli gwastraff**

3.3 Yn flaenorol, roedd y Cynlluniau Gwastraff Rhanbarthol yn gwahaniaethu rhwng y cyfleusterau hynny yr ystyrid eu bod mewn adeiladau a'r rhai yr ystyrid eu bod yn yr awyr agored. Nodir y canllaw defnyddiol hwn yn y ffigur isod:

**Ffigur 1. Cyfleusterau nodweddiadol sydd Mewn Adeiladau a'r rhai sydd yn yr Awyr Agored**

| Mewn Adeiladau | Yn yr Awyr Agored |
|---|---|
| Gorsaf Drosglwyddo | Cyfleusterau Dinesig |
| Compostio Caeëdig | Rhesgompostio Agored |
| Pyrolysis | Esemptiad ar gyfer Adeiladu a Dymchwel |
| Cyfleuster Adfer Deunyddiau Budr | Ailgylchu Adeiladu a Dymchwel |
| Nwyeiddio | Tirlenwi Gwastraff nad yw'n Beryglus |
| Llosgydd | Tirlenwi Gwastraff sy'n Beryglus |
| Triniaeth Fiolegol Fecanyddol | Tirlenwi Gwastraff Segur |
| Awtoclafio | |

Ffynhonnell: Adolygiad 1af Cynllun Gwastraff Rhanbarthol, 2008

3.4 Nodir tir posibl ar gyfer cyfleusterau gwastraff mewn adeiladau yn Nhabl 6 o CDLl presennol Sir Gaerfyrddin (a atgynhyrchir yn nhabl 5 isod). Nodir safleoedd y mae'n bosibl y gellir darparu Cyfleusterau Rheoli Gwastraff Mewn Adeiladau arnynt ag "1" wrth ochr enw'r safle. Mae troednodyn i'r tabl yn tynnu sylw at y canlynol:

*mae'n bosibl bod cyfanswm tybiannol o 31.7 hectar o dir ar gael ar y safleoedd hyn. Yn ychwanegol at y ffigur hwn yw'r lle posibl sydd ar gael yn Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws, yn ogystal â thir posibl a allai fod ar gael ar safleoedd cyflogaeth bresennol, safleoedd gwastraff a safleoedd eraill na chawsant eu dyrannu yn ystod cyfnod y Cynllun.*

**Tabl 5 Dyraniadau Tir Cyflogaeth (CDLl mabwysiedig presennol)**

| Cyfeirnod CDLl | Enw'r Safle | Lleoliad | Dosbarth Defnydd | Hectarau |
|---|---|---|---|---|
| **Ardaloedd Twf** | | | | |
| GA1/E1 | Ystad Ddiwydiannol Cillefwr[1] | Caerfyrddin | B1,B2,B8 | 4.38 |
| GA1/MU1 | Gorllewin Caerfyrddin | Caerfyrddin | B1,B2,B8 | 5.45 |
| GA1/MU2 | Pibwr-lwyd | Caerfyrddin | B1,B2,B8 | 15.50 |
| GA2/MU9 | Llynnoedd Delta | Llanelli | B1 | 9.78 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| GA2/E1 | Dafen[1] | Llanelli | B1,B2,B8 | 22.80 |
| GA3/E1 | Parc Busnes Cross Hands | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 0.79 |
| GA3/E2 | Heol y Waun, Cross Hands | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 1.16 |
| GA3/E3 | Parc Menter, Cross Hands | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 1.04 |
| GA3/E7 | Dwyrain Cross Hands | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B8 | 9.22 |
| GA3/E8 | Parc Bwyd Gorllewin Cross Hands | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 8.91 |
| GA3/E10 | Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre, Capel Hendre | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 4.05 |
| GA3/E11 | Parc Hendre, Capel Hendre1, | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B2,B8 | 11.73 |
| GA3/E12 | Heol Ddu, Tŷ-croes[2] | Rhydaman/ Cross Hands | B1,B8 | 0.34 |
| **Cyfanswm** | | | | **95.15** |

| Cyfeirnod CDLl | Enw'r Safle | Lleoliad | Dosbarth Defnydd | Hectarau |
|---|---|---|---|---|
| **Aneddiadau â 2-4 Haen** | | | | |
| T2/1/E1 | Dyfaty | Porth Tywyn | B1,B2,B8 | 3.28 |
| T2/2/E1 | Ystad Ddiwydiannol Beechwood | Rhos-maen/ Llandeilo | B1,B2,B8 | 2.33 |
| T2/4/E1 | Sunny Bank | Castellnewydd Emlyn | B1 | 1 |
| T2/5/E1 | Tir ger Iard yr Orsaf | Sanclêr | B1,B8 | 0.33 |
| T2/5/E2 | Tir ger yr A40 | Sanclêr | B1,B8 | 1.23 |
| T2/5/MU1 | Hen Ffatri Menyn | Sanclêr | B1,B8 | 0.36 |
| T2/6/E1 | Stryd y Gorllewin | Hendy-gwyn ar Daf | B1,B8 | 0.27 |
| T2/6/E2 | Ystad Ddiwydiannol Hendy-gwyn ar Daf | Hendy-gwyn ar Daf | B1,B8 | 1.07 |
| T2/6/E3 | Hufenfa Hendy-gwyn ar Daf | Hendy-gwyn ar Daf | B1,B8 | 1.7 |
| T3/8/E1 | Tir i'r dwyrain o Heol yr Orsaf | Glanaman/ Y Garnant | B1 | 0.7 |
| T3/11/E1 | Hen Ffowndri | Llanybydder | B1,B8 | 0.51 |
| SC34/E1 | Ystad Ddiwydiannol Pantyrhodyn | Cilyrychen | B1,B2,B8 | 1.5 |
| SC34/E2 | Ystad Ddiwydiannol Cilyrychen (gogledd) | Cilyrychen | B1,B2,B8 | 1.7 |
| **Cyfanswm** | | | | **15.98** |
| **Cyfanswm (pob safle)** | | | | **111.13** |

3.5 Yn rhan o'r paratoadau ar gyfer y CDLl Adneuo Diwygiedig, defnyddiwyd amryw o ffynonellau tystiolaeth i gynnal asesiad cyfredol ar gyfer tir addas sydd â'r gallu i gynnwys gweithrediadau rheoli gwastraff. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiadau Monitro Blynyddol y CDLl;

- Adolygiadau Tir Cyflogaeth Blynyddol y CDLl;
- Adolygiad Mwy na Thir Cyflogaeth Lleol
- Ymweliadau Safle

3.6 Mae adroddiadau monitro blynyddol y CDLl yn nodi'r nifer sy'n manteisio (gyda chaniatâd cynllunio wedi ei roi a [phan mae hynny'n berthnasol] y gweithrediadau wedi dechrau) ar dir cyflogaeth dyranedig sydd yn y Cynllun dros gyfnod o 12 mis, o 1 Ebrill i 31 Mawrth y flwyddyn ganlynol. Darperir rhagor o fanylder gan yr adolygiad tir cyflogaeth blynyddol a gyhoeddir ar y cyd â'r Adroddiad Monitro Blynyddol ac sydd hefyd yn nodi'r nifer sy'n manteisio ar safleoedd cyflogaeth presennol (ac yn newid eu defnydd), yn ogystal â'r nifer sy'n ymgymryd â gweithrediadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth ar safleoedd eraill. Pan nodir cysyniadau a cheisiadau cynllunio sy'n ymwneud â rheoli gwastraff, cânt eu nodi a'u cofnodi (gweler atodiad 2, isod).

3.7 Yn fwy diweddar, comisiynwyd Astudiaeth Mwy na Thir Cyflogaeth Lleol ar y cyd gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Chyngor Sir Penfro (a'r Parciau Cenedlaethol a gwmpesir gan yr awdurdodau hynny) yn rhan o'r dystiolaeth ar gyfer eu CDLl Diwygiedig. Roedd yr astudiaeth hon yn canolbwyntio ar y cysylltiadau rhwng yr awdurdodau, ar sefydlu ffyrdd o weithio gyda'i gilydd, yn ogystal â chynnal archwiliad o safleoedd posibl i'w dyrannu yn y CDLl priodol yn seiliedig ar ragolygon economaidd, a chyfrifiadau arwynebedd llawr a gofynion arwynebedd y safleoedd.

3.8 Defnyddiwyd y dystiolaeth y cyfeirir ati uchod wrth ddehongli swm gofynnol y tir cyflogaeth i'w ddyrannu yn y CDLl Diwygiedig Adneuo. Mae hyn wedi arwain at ffigur cyfanswm dyraniad cyflogaeth llai sef 71 hectar. Gellir gweld y rhestr lawn o ddyraniadau cyflogaeth ym Mholisi EME3 o'r Cynllun Diwygiedig Adneuo. O'r safleoedd a nodwyd, ystyriwyd y safleoedd B2 hynny sydd â'r gallu i gynnwys cyfleusterau rheoli gwastraff mewn adeiladau. O ran tir cyflogaeth B2 a ddyrannwyd, mae'r CDLl Diwygiedig Adneuo yn cynnwys darpariaeth o oddeutu 20-30 hectar (ac eithrio safleoedd B2 presennol). Mae capasiti tir potensial ychwanegol yn bodoli ar Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws ac mae hwn wedi ei nodi ar Fap Cynigion y CDLl Diwygiedig Adneuo. Mae'n bosibl bod rhagor o botensial yn bodoli mewn safleoedd gwastraff eraill yn y Sir a restrir yn atodiad 1 (o ran ehangiad posibl neu newid defnydd) sy'n ddibynnol ar amgylchiadau unigol.

3.9 Adlewyrchir pwysigrwydd presennol Nant-y-caws fel safle ar gyfer gweithrediadau rheoli gwastraff lluosog yn CDLl cyfredol Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys polisi penodol sy'n diogelu'r safle rheoli gwastraff hwn.

**Nant-y-caws – y sefyllfa bresennol**

3.10 Mae'r gweithrediadau presennol ar y safle yn cynnwys:

- Rhesgompostio,
- Compostio Caeedig,
- Safle Cyfleusterau Dinesig,
- Safle Tirlenwi (Nad yw'n Beryglus),
- Llosgydd Nwy Tirlenwi (gwerthir y trydan a gynhyrchir i'r grid),
- Cyfleuster Adfer Deunyddiau

3.11 O ran gwastraff trefol pydradwy, nid yw'r safle compostio mewn llestr yn weithredol ar hyn o bryd a chaiff gwastraff bwyd y Sir ei drosglwyddo i gyfleusterau treulio anaerobig y tu allan i'r Sir. Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer cyfleuster treulio anaerobig ar y safle yn 2015, a gallai hyn fod yn opsiwn i'r dyfodol.

3.12 Yn y CDLl Diwygiedig Adneuo, nodir Nant-y-caws fel Safle Adfywio a Defnydd Cymysg o dan Bolisi SG1. Yn ogystal â chael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy, mae'r safle'n cynnig y potensial ar gyfer gweithrediadau gwastraff pellach yn ogystal â gweithgareddau cysylltiedig sy'n seiliedig ar gyflogaeth.

**I grynhoi**

3.13 Mae’n rhaid nodi, er y gall y CDLl ganfod y lleoliadau y teimla y byddai'n briodol ar gyfer cyfleusterau gwastraff, yr awdurdod gwastraff trefol neu'r diwydiant rheoli gwastraff fyddai'n cyflwyno cynigion ar y safleoedd hyn yn y pen draw. Felly, caiff y broses ei harwain gan y farchnad i raddau helaeth. Yn ogystal â'r safleoedd a fydd yn cael eu dyrannu yn y CDLl Diwygiedig, efallai y bydd y diwydiant gwastraff yn cyflwyno awgrymiadau amgen yn y dyfodol, ar safleoedd nad ydynt wedi eu dyrannu. Yn yr achosion hyn, bydd addasrwydd safleoedd o'r fath yn cael ei asesu yn ôl eu rhinweddau unigol ac mewn cysylltiad â'r holl bolisïau perthnasol a gynhwysir yn y CDLl Diwygiedig.

## 4.0 Materion allweddol sy'n cael sylw yn yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru

**Gwagle ar gyfer tirlenwi**

4.1 Nod hirdymor Llywodraeth Cymru yw dileu tirlenwi i'r graddau mwyaf posibl. Mae *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn gosod terfynau ar gyfanswm y gwastraff trefol gweddilliol a’r gwastraff diwydiannol a masnachol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Er hynny, cydnabyddir y bydd gwaredu i safleoedd tirlenwi yn parhau yn y tymor byr i ganolig (hyd at 2024/25). Mae hyn yn rhannol oherwydd y ffordd y caiff gwastraff ei gasglu, capasiti’r seilwaith sydd eisoes ar waith i ymdrin â gwastraff, a bodolaeth gwastraff etifeddol a gweddillion llosgi, lle nad oes unrhyw ddewis diogel arall o ran gwaredu safleoedd tirlenwi yn y pen draw ar hyn o bryd.

4.2 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff a gynhyrchwyd ar gyfer y rhanbarth bob blwyddyn yn nodi faint o gapasiti tirlenwi (gwagle) sy'n weddill yn y rhanbarth yn gyffredinol. Y lefel (a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21) yr ystyrir bod y gwagle ym mhob rhanbarth yn ddigonol ac y dylid ei gynnal yw 5/7 mlynedd. Er bod yr Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf (ar gyfer cyfnod 2021/22) yn nodi capasiti digonol, os bydd y sefyllfa'n newid yn ystod blynyddoedd dilynol, yna bydd angen ystyried lleoliadau posibl ar gyfer safle tirlenwi newydd a fyddai'n bodloni gofynion y rhanbarth. Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn nodi y bydd y mannau lle ceir mapiau chwilio (a gafodd eu paratoi i ategu adolygiadau cyntaf y cynllun gwastraff rhanbarthol yn 2008) ar gyfer cyfleusterau awyr agored yn fan cychwyn defnyddiol i chwiliadau safle. Er hynny, bydd rhagor o wybodaeth fanwl a gwybodaeth leol yn amhrisiadwy.

**Cyrraedd targedau ailgylchu – a'r angen cysylltiedig i ddod o hyd i safleoedd**

4.3 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff ar gyfer rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn monitro cyfraddau ailgylchu pob awdurdod cyfansoddol yn ei ranbarth ac yn nodi a yw'r targedau yn *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* yn cael eu cyflawni. Mae'r cynnydd wedi bod yn addawol iawn o flwyddyn i flwyddyn, gyda chyfraddau ailgylchu cyfunol y rhanbarth ar gyfer cyfnod 2020/21 (67.2%) yn cyflawni targed 2019/20 *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* o 64%. Mae'r angen i sicrhau bod cyfleusterau newydd ar waith a all ddarparu ar gyfer natur newidiol y gwaith o reoli gwastraff yn gysylltiedig â'r llwyddiant o ran cyflawni targedau.

4.4 Yn unol â'r hierarchaeth gwastraff, mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP) yn nodi symudiad tuag at leihau'r dewisiadau gwaredu ac adfer wrth ymdrin â gwastraff er mwyn cynnal casgliadau cyfaint uchel ar wahân a ddilynir gan ailbrosesu yn ogystal â pharatoi i ailddefnyddio ac atal.

4.5 Bydd yn bwysig felly bod awdurdodau cynllunio yn monitro’r cynnydd tuag at ddarparu rhwydwaith integredig a digonol o osodiadau ar gyfer gwaredu gwastraff a chyfleusterau ar gyfer adfer gwastraff trefol cymysg a gwastraff tebyg o’r sectorau masnachol a diwydiannol yn ogystal ag aelwydydd preifat. Mae gan CDLlau swyddogaeth hollbwysig i'w chwarae o ran hwyluso'r gwaith o gyflenwi rhwydwaith o gyfleusterau newydd o'r fath.

**Gwastraff Gweddilliol**

4.6 Mae’n anodd rhagweld â sicrwydd llwyr yr anghenion yn y dyfodol o ran ymdrin â gwastraff cymysg gweddilliol, adfer a gwaredu gwastraff, a hynny oherwydd amrywiaeth y ffactorau sy'n effeithio ar nifer y tunellau yn y dyfodol a'r capasiti presennol gwirioneddol. Ond mae'r Cynllun Sector Casgliadau, Seilwaith a Marchnadoedd (CIMSP) yn nodi'r angen parhaus am ragor o wastraff gweddilliol nad oes modd ei ailgylchu. Felly, ar draws Cymru mae angen datblygu mwy o gyfleusterau trin ac adfer gwastraff gweddillol a sicrhau y cynhelir digon o gapasiti gwaredu ar lefel sy'n briodol i gefnogi nodau cyffredinol *Tuag at Ddyfodol Diwastraff* a'r CIMSP.

4.7 Mae’r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn ei gwneud yn ofynnol i waredu ac adfer gwastraff trefol cymysg yn un o'r gosodiadau priodol sydd agosaf at ffynhonnell y gwastraff sy'n codi. Ond yn ôl Nodyn Cyngor Technegol (TAN 21) nid yw hyn yn cyfleu’r disgwyliad y dylai pob ardal fod yn hunangynhaliol o ran y rhwydwaith. Efallai y bydd gwastraff sy'n codi mewn un ardal yn cael ei drin neu ei waredu'n well mewn ardal neu ranbarth awdurdod lleol cyfagos ac mae ‘rhwydwaith’ y seilwaith a ragwelir yn debygol o gael ei wasgaru dros ardal ehangach na ffin weinyddol un awdurdod lleol. Er hynny, yn unol ag egwyddorion cynaliadwyedd, ceir disgwyliad y bydd pob ardal yn cael ei pharatoi i gynnwys seilwaith er mwyn cefnogi'r broses o ddatblygu rhwydwaith integredig a digonol.

4.8 Mae'r Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff presennol ar gyfer y 3 rhanbarth wedi nodi canlyniadau gwahanol o ran rheoli gwastraff gweddilliol. Er enghraifft, mae gan y De-ddwyrain gyfleuster mawr troi gwastraff yn ynni sy'n ymdrin â gwastraff gweddilliol sawl awdurdod yn y rhanbarth hwnnw. I'r gwrthwyneb, mae Canolbarth a De-orllewin Cymru yn parhau i ddefnyddio tirlenwi fel opsiwn i ymdrin â'u gwastraff gweddilliol, ond

hefyd mae rhai awdurdodau (gan gynnwys Sir Gaerfyrddin) wedi bod yn allforio rhywfaint o'u gwastraff gweddilliol i gyfleusterau troi gwastraff yn ynni yn Lloegr, a'r Cyfandir.

4.9 Mae'n amlwg bod y marchnadoedd yn gorchymyn lle mae’r awdurdodau lleol yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru yn gwaredu eu gwastraff gweddilliol ar hyn o bryd. Mae’r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff wedi nodi bod y sefyllfa hon yn effeithio ar yr angen gwirioneddol am gyfleuster gwastraff gweddilliol newydd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru a allai ddarparu ar gyfer gwastraff y rhanbarth. Rhoddwyd enghraifft o gais cynllunio ar gyfer cyfleuster nwyeiddio a wrthodwyd yn rhannol oherwydd diffyg tystiolaeth a ddarparwyd i ddangos ble fyddai’r deunydd gwastraff yn cael ei gyrchu (gan nad oedd yn glir y byddai digon o ddeunyddiau yn y rhanbarth i'w wneud yn ymarferol).

4.10 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru yn tynnu sylw at astudiaeth ddichonoldeb gan ymgynghorwyr ar ran Cyngor Abertawe i'r potensial o gael cyfleuster troi gwastraff yn ynni i wasanaethu'r rhanbarth na chafodd ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru. Mae'n mynd ymlaen i dynnu sylw at y moratoriwm mwy diweddar a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar unrhyw gyfleusterau ynni o wastraff newydd ar raddfa fawr yn y Wlad. Mae hyn eisoes wedi cael effaith ar gyfleusterau arfaethedig, gyda cheisiadau cynllunio'n cael eu gwrthod ar gyfer cyfleusterau o'r fath ym Mhowys ac yng Nghaerdydd. Awas

**Gwastraff bwyd**

4.11 Ni cheir adroddiadau blynyddol cyson am sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd yn y DU nac yng Nghymru. Fodd bynnag, mae Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) wedi cyhoeddi data ar wastraff bwyd o gartrefi yn rheolaidd ers 2007. Mae astudiaethau a gyhoeddwyd yn 2013 ac yn 2017 yn amcangyfrif mai oddeutu 10 miliwn o dunelli yw sgil-gynhyrchion gwastraff bwyd blynyddol cartrefi, y gwasanaethau lletygarwch a bwyd, a’r sectorau gweithgynhyrchu bwyd, manwerthu a chyfanwerthu.

4.12 Mae'r ffigur canlynol yn dangos y symiau o wastraff bwyd o gartrefi yng Nghymru yn 2009 a 2015. Data ar gyfer gwastraff bwyd o gartrefi a gasglwyd gan awdurdodau lleol (gweddilliol a chasgliadau sy'n targedu gwastraff bwyd) a fynegir fesul person.

| Gwastraff bwyd o gartrefi (kg/person fesul blwyddyn) | | | | Newid | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2009 | 2014 | 2015 | Kg / person / blwyddyn | % |
| Cymru | 75.4 | Amherthnasol | 66.2 | -9.2 | -12.2% |

Ffynhonnell: WRAP, Household Food Waste in the UK, 2015 (Ionawr 2017)

4.13 Mae adroddiad Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) yn tynnu sylw at y ffaith fod Cymru wedi cynhyrchu lefelau is o wastraff bwyd yn 2015 na’r hyn a amcangyfrifir ar gyfer y DU ar gyfer yr un ffrydiau gwastraff - 73.1kg / person / blwyddyn. Mae’r adroddiad yn mynd ymlaen i ddweud bod y rhesymau posibl dros hyn yn cynnwys lefelau incwm is yng Nghymru o’u cymharu â gweddill y DU (a allai roi mwy o gymhelliant i weithredu); a/neu fod ganddi gasgliadau gwastraff bwyd ar wahân sy’n fwy cyffredin ac yn cael eu defnyddio’n well (a allai fod wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o'r niferoedd a wastraffwyd). Mae'r Adroddiad yn ychwanegu bod angen rhagor o ymchwil i

ddeall hyn yn well, gan nodi unrhyw wersi a allai helpu i leihau gwastraff bwyd o gartrefi ar draws y DU ymhellach.

4.14 Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf ar gyfer Canolbarth a De-orllewin Cymru yn adrodd bod mwy o sicrwydd o ran rheoli gwastraff bwyd yn y rhanbarth, nag sydd gyda gwastraff gweddilliol (a amlygir uchod). Yn y rhanbarth, mae gan y rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol (gan gynnwys Sir Gaerfyrddin)gontractau gyda Severn Trent i anfon eu gwastraff bwyd i Gyfleuster Treulio Anaerobig y cwmni ger Pen-y-bont ar Ogwr (a/neu eu Safleoedd Treulio Anaerobig eraill yn Lloegr)

4.15 Er gwaethaf y diffyg data cyfredol ynghylch faint o wastraff bwyd a gynhyrchir yn flynyddol, mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn pwysleisio ei bod yn annhebygol y bydd angen rhagor o gapasiti ar gyfer cyfleusterau i ymdrin â gwastraff bwyd yn y rhanbarth. Mae'n ychwanegu fodd bynnag y bydd y sefyllfa'n cael ei diweddaru'n flynyddol a bydd unrhyw newidiadau yn cael eu hadrodd yn yr Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff dilynol.

**Yr Economi Gylchol**

4.16 Un o elfennau allweddol Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 yw'r symudiad tuag at gynnwys economi fwy cylchol yng Nghymru. Mae economi gylchol yn un sy'n ceisio parhau i ddefnyddio deunyddiau, cynnyrch a chydrannau gyhyd â phosibl. Ceir manteision amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd o weithredu yn y ffordd hon, yn fwyaf nodedig y cynnydd mewn gwerth a chynhyrchiant deunyddiau, arbedion ariannol i'r sector adeiladu ac atal gwastraff.

4.17 Anogir cynigion datblygu sy'n cynnwys deunyddiau a nodweddion cynllunio sy'n galluogi hyblygrwydd a'r gallu i addasu drwy gydol oes cynllunio'r adeilad ac a fydd yn galluogi'r deunyddiau i gael eu hailddefnyddio pan fydd yn cael ei ddadadeiladu.

4.18 Lle bo hynny'n briodol, anogir defnyddio deunyddiau o ffynonellau lleol, amgen, neu ddeunyddiau sydd wedi eu hailgylchu, gan gynnwys ailddefnyddio ac ailgylchu deunyddiau agregau eilaidd, deunyddiau adeiladu, deunyddiau dymchwel a gwastraff cloddio, lludw gwaelod llosgwyr a deunyddiau priodol eraill sydd wedi eu hailgylchu.

4.19 Mae'n anochel bod angen rhywfaint o weithrediadau peirianyddol tyrchu a llenwi ar safleoedd adeiladu. Bydd gofyn i ddatblygwyr gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol, ac yn rhan o'r broses o drin y safle dylid asesu cydbwysedd tyrchu a llenwi'r deunyddiau a gloddir er mwyn osgoi creu gwastraff na ellir ei ailddefnyddio'n effeithiol oherwydd diffyg cyfleusterau storio addas.

4.20 I'r perwyl hwn, cynhwysir polisi sy'n hybu egwyddorion economi gylchol yn y CDLl Adneuo Diwygiedig. Yn y polisi, bydd yn ofynnol bod cynigion datblygu yn dangos, drwy gyflwyno cynllun rheoli deunyddiau naturiol, sut mae'r broses o gynhyrchu gwastraff wedi ei lleihau a bod unrhyw wastraff a gynhyrchir yn cael ei reoli er mwyn parhau i ddefnyddio adnoddau cyhyd â phosibl.

**Ymgorffori cyfleusterau gwastraff mewn datblygiadau newydd**

4.21 Mae Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 21 yn ei gwneud yn ofynnol bod cyfleusterau a gwagle digonol ar gyfer casglu, compostio ac ailgylchu deunyddiau gwastraff yn cael eu

cynnwys yng nghynllun unrhyw ddatblygiad. Dylai strategaethau a pholisïau'r cynllun datblygu lleol sy'n cynnig datblygu annog darparu cynwysyddion gwastraff digonol ac effeithiol ar gyfer ailgylchu a nodi eu bod yn disgwyl i ddatblygwyr fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i leihau gwastraff yn rhan o gynllun a'r gwaith o adeiladu'r adeiladau newydd.

4.22 I'r perwyl hwn, mae polisi sy'n ymdrin â rheoli gwastraff cynaliadwy a datblygiadau newydd wedi ei gynnwys yn y CDLl Adneuo Diwygiedig. Yn y polisi, mae'n rhaid i gynigion datblygu sicrhau y gwneir darpariaeth ar gyfer rheoli gwastraff mewn modd cynaliadwy ym mhob datblygiad newydd, gan gynnwys storio, ailgylchu, a thrwy sicrhau cyfleoedd i leihau'r gwastraff a gynhyrchir.

**Cynnwys y Diwydiant Rheoli Gwastraff**

4.23 Mae'n rhaid pwysleisio na all CDLl ddarparu'r rhwydwaith gofynnol o gyfleusterau gwastraff, ond gallant ddarparu fframwaith cynllunio sy'n galluogi darpariaeth gymwys a digonol o dir er mwyn hwyluso'r broses o sefydlu'r rhwydwaith gofynnol. Caiff y diwydiant rheoli gwastraff ei arwain gan y farchnad i raddau helaeth, a chwmnïau preifat (yn ogystal â chwmnïau 'teckal' awdurdodau lleol) fydd yn sefydlu ac yn cynnal gweithrediadau gwastraff yn y pen draw.

4.24 Gyda hyn mewn golwg, dylai ymgysylltu effeithiol â'r diwydiant rheoli gwastraff a rheolwyr gwastraff awdurdodau lleol fod yn elfen angenrheidiol o gynllunio gwastraff. Yn yr un modd, cyfrifoldeb cwmnïau rheoli gwastraff unigol a chyrff y diwydiant yw ymgysylltu'n rhagweithiol ag Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystod y broses o baratoi'r CDLl er mwyn cyfleu eu hanghenion a'u buddiannau. Byddai hyn yn helpu Awdurdodau Cynllunio Lleol unigol i nodi safleoedd priodol gan ystyried amgylchiadau lleol.

4.25 Mae'r sector preifat hefyd yn chwarae rhan bwysig o ran cyfrannu at symud gwastraff ymhellach i fyny'r hierarchaeth gwastraff drwy ei weithgareddau i leihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff, tra dylai'r rheoliadau gwastraff deunydd pacio a Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff weld gostyngiad yn swm y gwastraff a gynhyrchir yn y dyfodol.

4.26 O ran ailgylchu, mae holl safleoedd ailgylchu gwastraff y cartref y Cyngor yn Sir Gaerfyrddin yn cael eu cynnal gan CWM Environmental Ltd – cwmni 'teckal' i'r Awdurdod. Yn ogystal â hynny, mae atodiad 1 yn nodi rhestr o safleoedd a ganiateir yn y Sir y mae llawer ohonynt yn cael eu gweithredu gan gwmnïau preifat ac sy'n darparu gwasanaeth gwerthfawr yn ailgylchu gwahanol fathau o wastraff.

## 5.0 Casgliadau

5.1 Mae'r Papur hwn wedi tynnu sylw at yr agweddau polisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer rheoli gwastraff yn y Sir, ac mae wedi darparu tystiolaeth gefndirol a gwybodaeth a ddefnyddir wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae'r Papur wedi dangos bod y maes rheoli gwastraff yn newid yn gyflym a bod gan y system gynllunio swyddogaeth bwysig i'w chwarae o ran hwyluso'r newid o orddibyniaeth ar dirlenwi a thuag at arferion gwastraff mwy cynaliadwy yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

5.2 Mae’r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff blynyddol ar gyfer Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn ddarn allweddol o dystiolaeth. Mae'r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff yn darparu’r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad y rhanbarth mewn cysylltiad ag ailgylchu gwastraff, yn ogystal â nodi'r sefyllfa bresennol o ran rheoli gwastraff gweddilliol a'r sefyllfa o ran faint o'r gwagle tirlenwi sy'n weddill. Mae angen i awdurdodau unigol ystyried yr holl dystiolaeth hon wrth baratoi eu CDLl yn ogystal â mewn trefniadau gweithio trawsffiniol.

5.3 Mae’r Adroddiad Monitro Cynllunio Gwastraff diweddaraf yn nodi cyfraddau ailgylchu cadarnhaol parhaus yn y rhanbarth, yn ogystal â mewn gwaith trawsffiniol mewn cysylltiad â ffrydiau gwastraff penodol (e.e. gwastraff bwyd). Ond mae’r sefyllfa yn y dyfodol o ran rheoli gwastraff gweddilliol, a gwagleoedd tirlenwi sy'n weddill, yn llai clir. Yr hyn sy'n peri pryder hefyd yw'r diffyg data blynyddol parhaol ar rai ffrydiau gwastraff megis Adeiladu a Dymchwel, Diwydiannol a Masnachol a gwastraff amaethyddol.

5.4 Mae'r papur hwn yn ddarn o dystiolaeth sy'n datblygu a bydd yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses o baratoi'r CDLl Diwygiedig, gan ddefnyddio'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarperir gan adroddiadau monitro blynyddol y CDLl, adolygiadau tir cyflogaeth, Adroddiadau Monitro Cynllunio Gwastraff ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

**ATODIAD 1**
**Cyfleusterau Gwastraff a Ganiateir yn Sir Gaerfyrddin**

| Gweithredwr y Safle | Enw/Cyfeiriad y Safle | Math o Gyfleuster | Cyfeirnod Grid y Safle | Côd Post y Safle |
|---|---|---|---|---|
| Sion Davies | Coomb Farm, Llangynog | Cyfleuster treulio anaerobig ar y fferm | SN 33914 14273 | SA33 5HP |
| Recycling Equipment UK Ltd | Linton Yard, Parc Busnes y Bynea, Heol y Bwlch, y Bynea, Llanelli | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SS 54996 98484 | SA14 9SU |
| Ammanford Recycling Ltd | Ammanford Metal Recycling, Heol Shands. Rhydaman | Cyfleuster Cerbydau ar Ddiwedd eu Hoes (ELV) | SN 62340 12974 | SA18 3QU |
| JH Davies | Doc Nevill, Glanymor, Llanelli | Safle Ailgylchu Metel | SS 50335 98852 | SA15 2NW |
| Dyfed Recycling Services | Pencoed Yard, Heol Bellevue, Y Bynea, Llanelli | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 52853 01353 | SA14 9LN |
| Browns Recycling Group Ltd | Hen Lofa Morlais, Heol Pontarddulais, Llangennech, Llanelli | Cyfleuster Triniaeth Ffisegol | SN 57410 02518 | SA14 8YF |
| G. D. Environmental Services Limited | Gweithfeydd Taybrite, Heol y Bwlch, Y Bynea | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SS 55100 98600 | SA14 9ST |
| Pendragon Waste & Skip Hire | Pendragon Waste & Skip Hire, Heol Thornhill, Cwmgwili, SA14 6PT | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 57576 11300 | SA14 6PT |
| CWM Environmental Ltd | Ystad Ddiwydiannol Heol Trostre | Safle Cyfleusterau Gwastraff y Cartref | 252,371,199,453 | SA14 9UU |
| CWM Environmental Ltd | Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin | Cyfleuster Trin Deunyddiau Ailgylchu | SN 47387 17556 | SA32 8BG |
| CWM Environmental Ltd | Safle Rheoli Gwastraff Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin | Cyfleuster Triniaeth Ffisegol | SN 47308 17601 | SA32 8BG |
| CWM Environmental Ltd | Safle Tirlenwi Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin | Gwastraff Tirlenwi Nad Yw'n Beryglus | SN 47860 17580 | SA32 8BG |
| Cwar Rock & Fountain | Cynwyl Elfed, Caerfyrddin | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 39039 25798 | SA33 6AR |
| T Richard Jones Betws Ltd | Heol y Ffowndri, Rhydaman | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI + asbestos | SN 63272 12187 | SA18 2LS |
| Carmarthen Recycling & Environmental Services Ltd | Gorsaf Drosglwyddo, Tre Ioan, Caerfyrddin | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI + asbestos | SN 38980 18935 | SA31 3RB |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sims Group UK Ltd | Pen y Banc Yard, Gors-las | Safle Ailgylchu Metel | SN 56612 13726 | SA14 7HT |
| | | | | |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Depo Cwmaman, Glanaman, Rhydaman | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 67644 13719 | SA18 1LQ |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Depo Cillefwr, Tre Ioan, Caerfyrddin | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 39659 19097 | SA31 3QZ |
| Cyngor Sir Caerfyrddin | Depo Trostre, Parc Diwydiannol Trostre, Llanelli | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SS 52270 99331 | SA14 9RA |
| CWM Environmental Ltd | Safle Cyfleusterau Dinesig Wernddu a Gorsaf Drosglwyddo, Heol Wernddu, Rhydaman | Safle Cyfleusterau Gwastraff y Cartref | SN 64731 15307 | SA18 2UR |
| CWM Environmental Ltd | Canolfan Ailgylchu a Safle Cyfleusterau Dinesig Hendy-gwyn ar Daf. | Safle Cyfleusterau Gwastraff y Cartref | SN 19250 16750 | SA34 0AE |
| Gwendraeth Valley Recycling Ltd | Swyddfa Safle Carwe Fawr, Hen Lofa Cynheidre, Pum Heol, Llanelli | Gorsaf Trosglwyddo HCI + triniaeth + asbestos | SN 49590 07986 | SA15 5YN |
| Mekatek Limited | Parc Amex, Tre Ioan, Caerfyrddin | Gorsaf trosglwyddo gwastraff cartrefi, masnachol a diwydiannol | SN 40034 19327 | SA31 3NF |
| EV Recycling Ltd | Gweithdai'r Goleudy, Uned 12, Porth Llanelli, Dafen, Llanelli | Safle Ailgylchu Metel | SN 53813 01833 | SA14 8LQ |
| McKenna Waste Ltd | Tir gerllaw Tŷ Newydd, Heol Thornhill, Cwmgwili | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 57736 11573 | SA14 6PT |
| Airfield Metals Limited | Carmarthen Metal Recycling, Heol Cillefwr (Gorllewin), Ystâd Ddiwydiannol Cillefwr, Tre Ioan, Caerfyrddin | Ailgylchu metel, storio cerbydau, dadlygru | SN 39044 19020 | SA31 3RB |
| Gavin Griffiths Recycling Ltd | New Lodge Farm, Heol Pontarddulais, Cwmgwili | Cyfleuster Triniaeth Ffisegol | SN 57330 09759 | SA14 6PW |
| Rees Metals | Pencoed Works, Bellvue Road, Llanelli | Safle Ailgylchu Metel | SS 54420 99188 | SA14 9LN |
| J and A Metals | J & A Metals Recycling Centre, Cwmgwili | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 57585 11289 | SA14 6PT |
| All Waste Services Ltd | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff yr Hen Felin Lifio gyda Chyfleuster Trin ac Ailgylchu, Llangadog | Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff HCI | SN 70114 28686 | SA19 9LS |
| A M G Resources Ltd | Talfarn Nevills Dock, Llanelli | Safle Ailgylchu Metel | SS 50518 99013 | SA15 2HD |

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

## ATODIAD 2:
## Ceisiadau a Chaniatâd Gwastraff ers mabwysiadu'r CDLl

| Y Cais | Lleoliad | Cynnig | Penderfyniad |
|---|---|---|---|
| **SIR GAERFYRDDIN** | | | |
| S/29559 | New Lodge Farm, Heol Pontarddulais, Cwmgwili, Llanelli SA14 6PW | Dymchwel adeiladau presennol ar y safle, adfer ac ail broffilio'r safle ac adeiladu Aráe paneli solar ffotofoltäig 2 - 3 MWE a chanolfan adennill ynni (yn cynnwys offer pyrolysis technoleg trawsnewid uwch (ACT) 8 - 12 MWE a chyfleuster 2 - 3 MWE gyda chanolfan addysg integredig) ynghyd â gwella mynediad, tirweddu a gwaith cysylltiedig | Gwrthodwyd 4 Chwefror 2016 |
| W/31601 | Cwar Cerrigyrwyn, Llangynog, Sir Gaerfyrddin SA33 5HU | Adeiladu cyfleuster ailgylchu gwastraff anadweithiol a'r gwaith cysylltiedig | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 12/10/16 |
| E/32491 | Hen Iard yr Albion, Heol yr Orsaf, Llangadog, SA19 9LT. | Tystysgrif Cyfreithlondeb - Storio Sgipiau, rwbel a phren eisoes.<br>Ailgylchu pren a rwbel Ailgylchu pren a chraidd caled | Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad sy'n Bodoli - Cymeradwyo 8/9/15 |
| S/33036 | Skip Solutions, Heol y Bwlch, Y Bynea, Llanelli, SA14 8SU. | Newid defnydd o B2 i orsaf trosglwyddo gwastraff (sui generis). | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 2/2/16 |
| S/34071 | Hen Lofa Morlais, Heol Pontarddulais, Llangennech, Llanelli, SA14 8YN | Canolfan prosesu gwastraff anadweithiol. | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 12/9/17 |
| W/32963 | Tir (rhan o MEKATEK), Parc Amex, Heol Llansteffan, Tre Ioan, Sir Gaerfyrddin SA31 3NF | Ffurfio llawr caled ar gyfer cerbydau HGV a pharc i lorïau. | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 11/1/16 |
| W/35655 | Tir oddi ar Heol Allt-y-cnap, Tre Ioan, Caerfyrddin SA31 3QY | Adeiladu warws ailgylchu teiars gyda swyddfeydd cysylltiedig, iard weithredol, clos storio a seilwaith atodol. | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 4/1/18 |
| W/36430 | Factory Yard, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, Sir Gaerfyrddin, SA48 8ES | Cais am Dystysgrif Cyfreithlondeb Datblygiad ar gyfer tystysgrif defnydd neu ddatblygiad arfaethedig ar gyfer cadw adeilad sy'n bodoli eisoes a'r iard gysylltiedig ar gyfer llosgi gwastraff anifeiliaid a chlinigol, ond gydag ad-drefnu mewnol arfaethedig ac isrannu arwynebedd y llawr i ddarparu peiriannau ac offer i brosesu gwastraff anifeiliaid fel bwyd anifeiliaid a gwêr (felly yn parhau o dan Ddosbarth Defnydd B2). | Cymeradwywyd Tystysgrif Cyfreithlondeb Defnydd neu Ddatblygiad Arfaethedig (CLOPUD) - 25/1/18 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| S/38134 | Cwar Glyngerwen, Felin-foel, Llanelli, SA14 8BX | Amrywiad ar amod 6 ar S/29950 (Mathau o Wastraff y gellir eu derbyn ar safle). | Cymeradwywyd ar 29/1/19. |
| E/38116 | Tir gerllaw Tŷ Newydd, Heol Thornhill, Cwmgwili, Llanelli, SA14 6PT. | Datblygiad arfaethedig ar gyfer llawr caled gyda system ddraenio gaeedig a gaiff ei ddefnyddio fel gorsaf trosglwyddo gwastraff anadweithiol | Caniatâd Cynllunio Llawn wedi'i roi ar 13/2/19 |
| E/37516 | Uned E1 Ystad Ddiwydiannol Capel Hendre, Rhydaman SA18 3SJ UNED | Yr adeilad i'w ddefnyddio i storio papur gwastraff. | Cymeradwywyd ar 13/2/2019 |
| S/39657 | AMG Resources Ltd, Nevills Dock, Llanelli, SA15 2HD | Hen adeilad ffowndri gofod agored mawr sydd mewn cyflwr gwael yw'r Adeilad ac mae'n cael ei fandaleiddio fwyfwy. Mae'r adeiladau mewn cyflwr adfeiliedig ac nid ydynt yn addas i'r diben mwyach o ran graddfa'r gwaith ailgylchu a wneir ar y safle ar hyn o bryd. | Rhoddwyd hysbysiad dymchwel ar 01/11/19 |
| W/39352 | Cwar Cerrigyrwyn, Llangynog, Sir Gaerfyrddin | Datblygiad rheoli gwastraff yn cynnwys sied fawr ar gyfer boeler biomas, naddwr pren, a storfa bridd (yn lle sied storio pridd a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio w/31601). Cais rhannol ôl-weithredol. | Caniatâd ar gyfer newid anfaterol wedi'i roi ar 07/11/19 |
| W/39490 | Amex Park, Hen Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin, SA31 NF | Gwelliant anfaterol ar W/25417 (dymchwel warws presennol ac adeiladu adeilad ffrâm dur newydd a iard goncrit) wedi'i ddiwygio i raddfa a gorffeniad allanol i adeilad trosglwyddo gwastraff arfaethedig | Caniatâd ar gyfer newid anfaterol wedi'i roi ar 07/11/19 |
| PL/01162 | Tir y tu ôl i Uned 3, Parc Diwydiannol Trostre, Llanelli, SA14 9UU | Cais cynllunio llawn arfaethedig ar gyfer sector ailgylchu, ail-ddefnyddio ac uwchgylchu Gwastraff Cartref gan gynnwys parcio a gwaith seilwaith cysylltiedig | Cymeradwyaeth CLEUD 30/06/2021 |
| PL/01679 | Tir yng Nghanolfan Ailgylchu Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Cais cynllunio llawn arfaethedig ar gyfer sector ailgylchu, ail-ddefnyddio ac uwchgylchu Gwastraff Cartref gan gynnwys parcio a gwaith seilwaith cysylltiedig | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 13/08/2021 |
| PL/01161 | Safle Cyfleusterau Dinesig, Safle Tirlenwi Nant-y-caws, Llanddarog, Caerfyrddin SA32 8BG | Cais cynllunio llawn arfaethedig ar gyfer estyniad i'r cyfleuster ailgylchu trefol presennol ynghyd ag adeiladu baeau storio dan orchudd, gorchudd to i'r iard bresennol a gwaith seilwaith cysylltiedig | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 26/4/2021 |
| W/31966 | Safle Tirlenwi Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Darparu peiriant treulio anaerobig. | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 3/8/15 |
| E/32296 | Safle Tirlenwi Nant-y-caws, Heol Llanddarog, Nant-y-caws, Caerfyrddin SA32 8BG | Addasu tanc slyri presennol drwy osod peiriant treulio anaerobig 20KW. | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 8/9/15 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| W/32504 | Fferm Coomb, Llangynog, Caerfyrddin, SA33 5HP | Cais cynllunio ar gyfer Peiriant Treulio Anaerobig 0.5MW, Fferm Coomb, Llangynog, Caerfyrddin, SA33 5HP | Rhoddwyd Caniatâd Llawn 8/9/15 |